# Y CARDI BACH

**Papur Bro Dyffryn Taf**

Cariad o beth Cardi Bach

Rhifyn 451 | Mai 2024 | Pris £1.50


## RUBIN EYNON WEDI'I BENODI'N GERFLUNYDD



Mae tipyn o gyffro yn y fro o ddeall bod yna gerflunydd wedi'i benodi i ddylunio cerflun o Twm Carnabwth ger Caffi Beca yn Efail-wen.

Cyhoeddodd y pwyllgor sy'n gyfrifol am drefnu'r fenter, o dan adain Cymdeithas Cwm Cerwyn, mai Rubin Eynon o Gwm-nedd yw'r cerflunydd sydd wedi'i ddewis.

Eisoes mae Rubin wedi ymweld â'r ardal er mwyn gweld dros ei hun y mannau sy'n gysylltiedig â Thomas Rees, arweinydd cyntaf y Becca yn 1839, pan chwalwyd tollborth Efail-wen yn shils.

Arweiniodd hynny at weithredu pellach ar draws siroedd y gorllewin ac mae'r haneswyr yn gytûn mai Twm gyneuodd y fflam ar gyfer gweithredu dros gyfiawnder.

Dywedodd Rubin ei fod yn gyfarwydd â'r hanes ers dyddiau ysgol gynradd a'i fod yn barod i wynebu'r her o lunio cerflun efydd cofiadwy.

Mae eisoes yn ystod ei yrfa wedi llunio sawl cerflun cofiadwy a'r diweddaraf oedd cerflun o neb llai na Max Boyce sydd i'w weld yng Nglyn-nedd.

Ei fwriad yw paratoi nifer o gynlluniau a syniadau i'w dangos yng Nghaffi Beca ar nos Fercher, Gorffennafe 17eg, pan gynhelir Noson Agored. Mae'r dyddiad hwnnw yn cyd-daro â'r trydydd a'r olaf o'r ymosodiadau ar yr iet yn 1839.

Bu rhaid i Thomas Bullin, perchennog y tollborth, ildio i nerth ac awch y brodorion dros gyfiawnder wedi hynny. Ni chredent ei bod yn deg eu gorfodi i dalu toll i fynd trwy bob tollborth a hwythau wedi arfer defnyddio'r ffyrdd yn ddi-dâl cyn hynny.

Ac roedd hi'n fain arnyn nhw'n ariannol yn barod oherwydd y cynnydd mewn rhenti, nifer o gynaeafau gwael, cwymp ym mhrisiau'r farchnad a'r orfodaeth i dalu degwm i Eglwys Loegr a hwythau'n Anghydffurfwyr.

Cofnodi a chyfleu hynny i gyd fydd tasg Rubin Eynon a bydd yn falch o dderbyn mewnbwn gan bawb ddaw i'r noson ar Orffennaf 17eg.

## Hoelion Wyth Beca yn dathlu 40




Ken Thomas, Eurfyl Lewis, Heledd Cynwal, John Jones ac Eifion Evans

Mae'n braf fod Cangen Beca
Yn cyrraedd deugain oed,
A braf gweld bod ei hoelion
Mor ifanc ag erioed!

Cyfarchion John y Graig (99 oed), ar ran Cangen Aberporth

*Adroddiad llawn ar dudalen 26*

**Y CARDI BACH**

| | |
|---|---|
| **Golygydd, Cadeirydd a Dosbarthwr** | Eurfyl Lewis 01994 419495 |
| **Is-gadeirydd:** | Iola Wyn 07870 100831 |
| **Ysgrifennydd**: | Beti Wyn James 01994 230966 |
| **Trysorydd** | Rosemarie Davies 01994 419005 |
| **Trysorydd y Clwb '200':** | Rhian White 01994 231338 |
| **Cysodwyr:** | Wyn a Meirwen Evans 01994 448447 |
| **I'ch diddori** | John Arfon Jones 01994 240536 |
| **Cornel y Dysgwyr::** | Albie Abbott 01239 831641 |
| **Tudalen y Plant:** | Llinos Mair Thomas |
| **Llewyrch i'm Llwybr:** | Eurfyl Lewis |
| **Cornel Coginio:** | Winnie James-Phillips 01239 831754 |
| **Cornel Llên:** | Marian Thomas 01994 230121 |

Newyddion, Lluniau, Erthyglau a Hysbysebion i'w hanfon erbyn **10fed** o bob mis, drwy e-bost os yn bosib, i Meirwen Evans, Y Felin, Cwmfelin Mynach, Hendygwyn-ar-Daf, SA34 0DH.

e-bost: ycardibach@btinternet.com



Nid yw'r Bwrdd Golygyddol o angenrheidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn a gyhoeddir yn Y Cardi Bach.



Argraffwyd gan:Gwasg Aeron Cyf. Aberaeron. 01545 571115

CYMRAEG

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru'.


# Colofn y Mis

*gan Iola Wyn, San Cler*

Wedi gwanwyn gwlyb, mae'n gyfnod i edrych ymlaen at yr haf. Ac wrth gwrs, yng Nghymru, ry'n ni'n croesi bysedd y bydd digonedd o ddyddiau o heulwen a chyfle i fod allan yn yr awyr iach yn hytrach na mochel rhag y glaw.

I nifer, mae'n gyfle i gynllunio gwyliau. Ac wedi blynyddoedd o hedfan mewn awyren, ry'n ni wedi penderfynu ar ddull arall o deithio eleni. Rhaid cyfaddef, os am gôt o chwys, mae'r profiad o fynd trwy adran y bagiau llaw mewn maes awyr yn ddigon i ddifetha'r gwyliau cyn hyd yn oed mentro ar yr awyren. Rhwng y tynnu gwregys, gemwaith, esgidiau, ffôn, oriawr, a rhoi colur a hylifau mewn bag tryloyw, mae'n dipyn o ymgyrch. A gyda chiw o bobl wedi cyffroi yn llwyr am eu gwyliau y tu ôl i fi, a swyddogion di-amynedd o 'mlaen i (nid pawb yn amlwg!) mae'r holl brofiad yn achosi i fi fynd i banig ryfedda'. Ac yna wrth gwrs, wrth i fy holl eiddo symud ar hyd y gwregys cyn i mi ddweud mod i'n barod, rydw i'n sylweddoli mod i'n dal i wisgo côt, ac felly'n chwilota'n wyllt am focs plastig arall er mwyn ei rhoi hi ar wahân.

A dim ond dechrau'r stori yw honno! Y cam nesaf yw'r un heriol. A phe bawn yn gorfod dyfalu pa mor aml rydw i wedi llwyddo i fynd drwy'r sgrin ddiogelwch heb i'r larwm coch ganu – wel gallaf gyfri' ar un llaw!
Felly tra bo gweddill fy nheulu neu fy ffrindiau wedi ei heglu hi i ben arall y gwregys i gasglu eu bagiau llaw a'u dillad, rydw i yn gorfod cael archwiliad…

Ac erbyn i fi basio'r prawf hwn, rydw i'n cyrraedd fy magiau a dillad, tra'n stryffaglu i roi fy esgidiau nôl am fy nhraed am eu bod nhw wedi chwyddo o dan y fath straen. Ac mae tasg syml fel rhoi oriawr yn ôl ar fy ngarddwrn yn her a hanner ….
Ac yna wrth i mi ddechrau anadlu'n bwyllog eto, mae'r panig yn taro fel mellten mod i wedi colli fy mhasbort a methu'n lân a chofio ym mha boced yn y bag y cafodd ei roi yn 'ddiogel.' Mae angen dau wyliau i ddod dros yr holl brofiad!

Felly eleni, am y tro cyntaf, ry'n ni wedi penderfynu mentro ar drên, a theithio drwy naw gwlad ar gyfandir Ewrop.

Yn sicr bydd yn brofiad sy'n garedicach i'r amgylchedd, a chawn weld a fydd yn fwy ymlaciedig na fy helbulon mewn meysydd awyr.
Rhof wybod, maes o law ….

# LLEWYRCH I'M LLWYBR

*gan Y Parchg Jill Hayley Harries*

**Y Pentecost.** (Actau 2:1-4)

Dwi'n siŵr ein bod i gyd yn hoffi dod at ein gilydd i ddathlu. Mae rhai yn aros hyd nes bod yna ben-blwydd arbennig neu ŵyl, fel y Nadolig cyn casglu pawb ynghyd i ddathlu. Eraill efallai yn dod o hyd i unrhyw achlysur neu esgus i gasglu pawb ynghyd i gael tipyn o hwyl. A phan ddaw'r cyfle i ddod ynghyd, yr ydym yn edrych ymlaen ac mae gennym ryw ddisgwyliadau a gobeithion am gyfarfod sy'n llawn cyffro a llawenydd.

Sut fyddwn ni yn dathlu'r Pentecost neu'r Sulgwyn, wedi'r cyfan dyma ben-blwydd yr eglwys, ac un o'r gwyrthiau mwyaf sydd yn y Beibl. Roedd pawb wedi dod ynghyd ar y Pentecost pan ddaeth sŵn fel gwynt grymus yn rhuthro, a thafodau fel o dân yn dawnsio ar eu pennau, a mwy na thair mil yn ymateb i'r digwyddiad ac yn cael ei bedyddio.

Gwyrth yw hi a berodd i'r Efengyl ledu ar draws y byd. Yn ystod y pedair blynedd diwethaf rwyf wedi cael y fraint o deithio cryn dipyn ar draws y byd – i Auckland, Malaysia, Ynys Jeju (De Korea), Yr Iseldiroedd, Singapore, Ynysoedd y Solomon ac fe fyddaf, gobeithio yn mynd i Dde Affrica cyn hir,

## GOHEBWYR LLEOL

| | |
|---|---|
| ALMA: | Margaret Evans<br>01994 230761 |
| BANCYFELIN: | Merle Jones<br>01267 211300<br>eleanormerle@icloud.com |
| CAPELI BANCYFELIN a CANA | Parch, Beti-Wyn James<br>beti.wyn@icloud.com |
| BLAENWAUN: | Tegwen James<br>01994 448223 |
| CAPEL MORIAH (Blaenwaun) | Meinir Eynon<br>01437 563540<br>meinireynon@gmail.com |
| CEFNYPANT: | Valerie Davies<br>01994 448475<br>vdavies55@outlook.com |
| CLUNDERWEN: | Lynys Davies<br>01437 563319<br>mam_dadbox@yahoo.co.uk |
| CWMBACH: | Jane Evans<br>01994 448790<br>teulujames@btinternet.com |
| CWMFELIN MYNACH: | Nansi Evans<br>01994 448392 |
| EFAILWEN: | Angharad Booth Taylor<br>01994 419221<br>angharad.boothtaylor@btinternet.com |
| GELLIWEN: | Peter Crowdie<br>01994 230033<br>peter.crowdie@btinternet.com |
| HENDY-GWYN: | Heather Jenkins<br>01994 240138<br>jenkinsh2809@gmail.comY |
| (Newyddion Tabernacl) | Parch. Guto Llywelyn<br>01269 851655<br>gutollywelyn@hotmail.com |
| HENLLAN - FALLTEG: | Sian Jackson<br>01994 240981<br>jacksonfawr@btinternet.com |
| LOGIN a CWM MILES | Meinir Eynon<br>01437 563540<br>meinireynon@gmail.com |
| LLANBOIDY: | Norah Heseltine<br>01994 448241<br>sales@shwldimwl.com |
| LLANDYSILIO: | Delyth Roblin<br>07882 639867<br>delythroblin@outlook.com |
| LLANGLYDWEN: | Jill Lewis<br>01994 419495<br>jill.lluest@gmail.com |
| LLANGYNIN: | Susan Phillips<br>01994 231066<br>siwperiw@googlemail.com |
| MEIDRIM: | Patsy Lewis<br>01994 230369<br>talarwen@hotmail.com |
| PENYBONT: | Linda Davies<br>01994 484657<br>lindadavies02061955@icloud.com |
| PWLLTRAP: | Beti Wyn James<br>01994 230966<br>betiwynjames@aol.com |
| RHYDYCEISIAID: | Doreen Adams<br>01994 240581 |
| RHYDWILYM: | Eilir Davies<br>01994 419649<br>eilirtyrhos@btinternet.com |
| SAN CLER: | Beti Wyn James<br>01994 230966<br>betiwynjames@aol.com |
| TRELECH: | Alyson Harries<br>01994 484359<br>alysonharries@btconnect.com |

a hyn i gyd er mwyn cyfarfod a Christnogion eraill ac i weld gwaith yr Eglwys yn y llefydd yma. Ar y Pentecost cyntaf, mae sôn am bawb yn siarad yn ei hiaith ei hun, a dyna sy'n digwydd yn aml yn ein cyfarfodydd, ond yr hyn sydd yn ein huno yw'r un Ysbryd a ddaeth a phobol ynghyd ar y dechrau.


Nid oes digon o ofod i sôn am y prosiectau cyffrous yr wyf wedi bod yn dyst iddynt, ond un peth sy'n sicr, y mae Duw ar waith drwy ei Ysbryd. Er hynny efallai eich bod yn gofyn wrth ystyried ein sefyllfa yma yng Nghymru, gyda'r eglwysi yn gwanhau ac yn lleihau, ble mae'r cyffro yn ein mysg ni. Mae'r Ysbryd Glân yn ein plith bob amser, nid oes angen i ni i aros am yr Ysbryd, yr Ysbryd Glân sy'n aros am ein hymateb ni. Ac wrth i ni ymateb cawn brofi eto gyffro a llawenydd newydd na brofwyd o'r blaen. Mae'r amser wedi dod i ni gasglu at ein gilydd a gadael i'r Ysbryd ein symud.

## Noson Lansio llyfr ' GweddÏo'r Salmau' gan y Parchedig Euros Jones Evans



*Y deisen dathlu arbennig*

Pleser i nifer o'r ardal oedd bod yn bresennol mewn oedfa arbennig yng Nghapel Providence, Llangadog ar nos Wener, 3ydd Mai lle y lansiwyd y llyfr. Llywyddwyd gan y Parchedig D. Aled Davies (Cyhoeddi'r Gair). Rhod-dodd Euros fraslun o sut a pham aeth at y gwaith o greu gweddi ar bob un salm - 150 ohonynt. Cyflwyn-wyd tair gweddi gan dri o ffrindiau agos Euros.




*Clawr y llyfr. Mae ar gael yn y siopau llyfrau lleol neu ar www.ysgolsul.com*

Cafwyd eitemau cerddorol gan Beti a Sian, Ioan Anderson (ŵyr Euros) a Chôr Meibion Bois y Castell. Yn ôl geiriau Euros ar glawr cefn y llyfr daeth i weld pa mor hanfodol yw i anelu ein gweddÏau ar yr Ysgrythur. Yr hyn sydd yn fawr am y salmau yw ein bod yn canfod ynd-dynt sefyllfaoedd sy'n adlewyrchu holl gyfrylau emosiynol, ysbrydol ac ingol dynioliaeth.'

I ddilyn cafwyd lluniaeth yn y neuadd, cyfle i gymdeithasu a chyfle i brynu llyfr. Noson i gofio. Llyfr gwerth ei gael, mynnwch gopi.




Euros yng nghwmni y rhai a gymerodd ran

# Clonc a Phosau John Arfon

Rwy'n poeni'n arw am y ffermwyr a'r garddwyr, oherwydd mae'r tywydd dros y misoedd diwethaf hyn wedi bod yn drybeilig. Dim ond glaw a mwy o law pob dydd ac mae'r gwynt wedi bod yn filain o oer. Gobeithio'n wir y bydd mis Mai yn well ac y cawn dipyn o wres i'w ganlyn.

Dymuniadau gorau a gwellhad buan i bawb sydd wedi bod yn anhwylus yn ddiweddar, a chydymdeimlad dwysaf i chwi sydd wedi colli anwyliaid.

Mai

Rhyfedd, mor ryfedd o wanwyn i wanwyn,
Yw grym yr egni sy'n deffro'r byd
Popeth mor hen â henoed y ddaear,
A phopeth yr un mor newydd o hyd.

(W. Leslie Richards)

**Dyma atebion y mis diwethaf**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| X | O | X | O | X | O |
| O | X | O | X | O | X |
| X | O | X | O | X | O |
| O | O | X | X | O | X |
| O | X | O | X | O | X |
| X | X | O | O | X | O |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2 | 6 | 5 | 8 | 3 | 4 | 9 | 7 | 1 |
| 3 | 7 | 1 | 2 | 5 | 9 | 6 | 4 | 8 |
| 8 | 4 | 9 | 7 | 1 | 6 | 5 | 3 | 2 |
| 5 | 8 | 2 | 9 | 4 | 3 | 7 | 1 | 6 |
| 7 | 3 | 4 | 6 | 2 | 1 | 8 | 5 | 9 |
| 9 | 1 | 6 | 5 | 7 | 8 | 4 | 2 | 3 |
| 4 | 2 | 8 | 3 | 9 | 7 | 1 | 6 | 5 |
| 6 | 5 | 7 | 1 | 8 | 2 | 3 | 9 | 4 |
| 1 | 9 | 3 | 4 | 6 | 5 | 2 | 8 | 7 |

**Dyma atebion "I Ddechrau ac I DdIweddu "**

1. Ie, 2. Ias, 3. Iesu, 4. Iachau, 5. Ionawr, 6. Iwerddon, 7. Iorddonen, 8. Ieuenctid, 9. Iwgoslafia, 10. Iselfrydig, 11. Iachawdwriaeth, 12. Iseldiroedd, 13.Indianapolis, 14. Indonesia, 15. Islamaidd, 16. Inswlin, 17. Israel, 18. Incwm, 19. Iolo, 20. Iar, 21. Ia


1. Ci, 2. Tri, 3. Babi, 4. Golchi, 5. Doleri, 6. Corneli, 7. Meirioli, 8. Troedfeddi, 9. Hwiangerddi, 10. Cynddeiriogi, 11. Ysgolfeistri, 12. Blodeugerddi, 13. Cynrychioli, 14. Sylweddoli, 15.Clodfori, 16. Distewi, 17. Poteli, 18. Tlodi, 19. Dewi, 20. Cei, 21. Ci.

**Dyma ddau i'ch diddori y mis hwn**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | O | O | | |
| X | | | | | |
| | X | | | | O |
| | | | | | O |
| | X | | | | |
| | | | | X | X |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 8 | | 4 | | | 9 | | | 7 |
| 3 | 5 | | 2 | | | 6 | | |
| | 6 | | 1 | | | | | |
| | | | | 4 | | | 8 | 1 |
| | 4 | | | 2 | | | | |
| | | | 9 | | 8 | | | |
| | | 6 | 5 | | 1 | 8 | | |
| | 7 | 9 | | | | | 4 | |
| | | | | | | 7 | 3 | |

Mae dau bos ichwi eu datrys y mis hwn. Y cyntaf yw ceisio datrys yr atebion i'r Croesair canlynol.





Cymerir ch, dd, ff, ng ac yn y blaen fel un llythyren

Ar draws
1. Dal ati. (6)
4. Rhyddhau carrai esgid. (5)
7. Cynulliadau o bobl wedi casglu â'i gilydd . (10)
8. Ffrwyth (4)
9. Gweld yn chwith. (5)
11. e.e. Tŷ, Ffactri, Eglwys ac yn y blaen. (7)
13. Cân Mei Emrys " Olwyn - - Dwr " . (6,!)
15. Crwydryn neu gardotyn. (5)
17. Toriad mewn dilledyn. (4)
18. Gwerthfawrogiad. (10)
20. Mewn hwn mae nerth. (5)
21. Rhifo sawl gwaith. (6)

I lawr
1. Camlas sy''n cysylltu y Môr Tawel â'r Atlantig. (6)
2. Sbri wrth lawnsio comic Cymraeg yn 1949.
3. Caneuon i un person. (7)
4. Dod, o fydd efallai. (5)
5. Rhiant gwryw. (3)
6. Gwawrio. (5)
7. Tynnwr lluniau. (60
10. Edrychwch a sylwch. (5)
12. Cyfeiriad codiad yr haul. (7)
14. Dod a phriodas i ben. (6)
15. Taid y De. (5)
16. Piti garw am y weithred anfoesol. (5)
17. Defnyddir hwn i yrru cwch neu gwrwgl. (4)
19. Cyfnod bywyd mewn coeden. (3)

Yr ail bôs yw ceisio dyfalu enw'r bachgen a gewch trwy ddarllen i lawr y blychau llwyd



Ceisiwch roddi y geiriau canlynol yn y grid fel y bo'ch yn cael enw person trwy ddarllen lawr y blychau llwyd

AWYREN, BRADWR ,
CARTREF, CRYFDER,
GWLAN, PENTWR.
TARAN

---

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD

Dymuniadau gorau i bawb o fro'r Cardi Bach sy'n cystadlu ac yn cymeryd rhan yn Eisteddfod yr Urdd Meifod.
Mai 27ain - Mehefin 1af

## Cymdeithas Capeli Bro Hywel Dda

Cyfarfod Cymdeithas Capeli Bro Hywel Dda

Dydd Sul, 9fed Mehefin
am 4 o'r gloch
yn festri Capel Nebo, Efailwen

Pwrpas y cyfarfod fydd trefnu taith gerdded 2024, dewis elusennau a threfnu digwyddiad ar gyfer trosglwyddo'r arian a godwyd. Gobeithio y cawn ni gynrychiolaeth dda o'r capeli i gyd yn y cyfarfod.

***(Sylwer: 4 a nid 5 o'r gloch)***

# Clwb 200

d/o Rhian White, Garnwen, Llangynin, San Clêr,
Sir Gâr. SA33 4JZ
Rhif ffôn: 01994 231338
e-bost: rhian-white1@hotmail.co.uk

Annwyl ddarllenwyr,
Gobeithio eich bod i gyd yn cadw'n iach ac yn ddiogel. Diolch i'r nifer ohonoch sydd eisoes wedi ymaelodi â'r clwb. Braf hefyd yw gweld cynifer wedi ymaelodi oddi ar y rhifyn diwethaf, fel y gallwch weld yn y rhestr uwchlaw.

Gofynnaf yn garedig i'r sawl sydd heb ymuno eto, i wneud, drwy ddanfon siec i mi am £10 yn daladwy i 'Clwb 200 Y Cardi Bach', neu dalu drwy'r banc. Rhif didoli'r banc yw 40-46-27 a rhif y cyfrif yw 91020765. Lle mae angen cyfeirnod, rhowch eich enw chi fan hyn.

Cofiwch fod y gwobrau misol nawr yn £20 a £30!

Dyma enwau'r sawl sydd wedi ymaelodi gyda'r clwb yn ddiweddar:-

Myra Davies, Bryntirion, Pwlltrap
Geraint Davies, Bryndewi, Llanddewi Efelffre
Kay Williams, Talar Deg, Llanboidy
Norah Heseltine, Spencer House, Llanboidy
M.K. Jones, Plas-y-Dderwen, Talog
Beryl Thomas, 9 Rhyd y Gors, Heol yr Orsaf, San Clêr
Hazel Smith, Gwalia, Clunderwen
Claude a Lynette James, 43 Bryngwenllian, Hen Dŷ Gwyn
Merched y Wawr - Cangen Hen Dŷ Gwyn
Joyce Phillips, Llanbarietts, Llanfallteg
Dai Phillips, Llanbarietts, Llanfallteg
Ronnie a Mair Morgan, 3 Sgwâr Piccadilly, Llanboidy
Phyllis Hughes, Hafan Dawel, Lôn Wen, Pwll-Trap
Mon Davies, Man Tawel, Llandysilio
Meurig Davies, Man Tawel, Llandysilio
Nia ac Elfed Lewis, Afallon, 29 Awel Tywi, Llangynnwr
Greta, Miriam a Noa Wyn, 6 Golwg Tywi, Llangynnwr
David Davies, Waterloo Terrace, Caerfyrddin
Islwyn Walters, Nantycyw, Trelech
Arwel Thomas, Primrose Hill, Llangynin
Liz Llewelyn, Dôl Awel, Efailwen
Angharad Davies, Merlais, Llanboidy
R.W. Williams, Bryn Eithin, Bryn Iwan
Ann Thomas, Min-y-Ddôl, 8 Bro Derwen, Clunderwen
P.J.D. a N.W. Jones, Ar y Banc, Heol Abergwili, Caerfyrddin
Buddug Nelson, 2 Plas y Milwr, Heol y Priordy, Caerfyrddin
Merle Evans, Delfryn, Llanboidy
Olive Thompson, Godrellain, Meidrim.
Freddie Robertshaw, 85 Woodfield Road, Princes Risborough.
Morgan Robertshaw, 85 Woodfield Road, Princes Risborough.


| | |
|---|---|
| 119 | ME a LH Evans |
| 162 | EM Davies |
| 616 | R. Thomas |
| 618 | Christian Pris Cater Allen Ltd |
| 619 | T a S Phillips |

Dim cyfeiriad i'r enwau yma.

Llongyfarchiadau i enillwyr lwcus fis Ebrill:-

£30 - 488 - Megan Phillips, Pwll-Trap
£20 - 699 - Jean Parri-Roberts, Hen Dŷ Gwyn

Diolch yn fawr a chadwch yn ddiogel,
*Rhian*




## Crwmbwl Afalau Taffi

Cynhwysion:-
50g menyn
50g siwgwr brown
2 lwy fwrdd o driog (syrup)
4 afal wedi'u pilio a'u sleisio

CRWST
70g menyn
75g blawd plaen
25g uwd
25g 'Rice Krispies'
½ llwy de powdwr cinnamon.

DULL:
- Rhowch y menyn, y triog a'r siwgwr mewn sosban a'u cynhesu i greu saws taffi.
- Ychwanegwch yr afalau a choginiwch am 3 munud.
- Rhowch y cwbl mewn dysgl wedi'u huro.
- Rhwbiwch y braster i'r blawd, yna ychwanegwch yr uwd, y 'rice krispies' a'r cinnamon.
- Rhowch y cyfan dros y ffrwythau a choginiwch ar wres 180°C/350°F am 30 munud.

Gweiniwch gyda chwstard neu 'Crème fraiche'

WYN DAVIES a'i FRODYR
ADEILADWYR
Golygfa'r Cwm
Ffynnonwen
Login
Hen Dŷ Gwyn ar Daf
Ffôn. 01437 563300



IFAN DAVIES
Saer Coed



Blaenwern
Clunderwen. SA66 7XA
07875 540469



W.J. KENNETH DAVIES
ei Feibion a'i Ferch
SEIRI COED
a
THREFNWYR ANGLADDAU
Blaenwern, Clunderwen
Ffôn: 01437 563319

# CORNEL Y DYSGWYR

*gan Albie Abbot*

Dyma cwpwl o bethau i chi. Gobeithio bo chi ddim wedi'u gwneud o'r blaen. Mae'n braf gweld yr haul o'r diwedd er bod fy mower yn pallu starto.

| | |
|---|---|
| Faint o brofiad sy 'da ti? | Does fawr o brofiad 'da fi. |
| Faint o arian sy 'da ti? | |
| Faint o obaith sy 'da ti? | |
| Faint o amser gest i? | |
| Faint o lwc gest ti? | |
| Wyt ti'n chwaraewr da? | Nadw, dwi'n ______________ |
| Wyt ti'n ganwr da? | |

Hyn/Hynny

| | |
|---|---|
| Dwi ddim yn credu hyn | Fyddwn i d dim yn credu hynny chwaith |
| Dwi ddim yn yfed hwn | |
| Dwi ddim yn gwisgo hon | |
| Dwi ddim yn bwyta rhain | |
| Dwi ddim yn derbyn hyn | |

Geirfa: adwy

Dibynadwy - dealladwy - annealladwy - darllenadwy - annarllenadwy - bwytadwy - anfwytadwy - credadwy - anghredadwy - amhrisiadwy -bythgofiadwy - ofnadwy

Mae'r cig yma'n
Mae'r llyfr yn
Mae'r stori'n
Mae'ch llawysgrifen yn
Mae e'n berson
Roedd e'n brofiad

Atebwch yn ol yr enghraifft

**Defnyddiwch y radd gyfartal**

e.e.Oedd y tywydd yn braf yn Sbaen? Ddim mor braf a hynny.
Oedd y car yn rhad?
Oedd y bwyd yn dda?
Oedd y lle yn diddorol?
Oedd y daith yn bell?
Oedd yr ystafell yn wael?
Ydy'r car newydd yn gyflym?

ARWYDDION A DYLUNIO
BOOMERANG
SIGN & DESIGN
01239 832 014
sales@boomerang-signs.co.uk
UNED 11A, PARC GWYNFRYN,
CRYMYCH, SIR BENFRO

CBS
CRYMYCH
ADNODDAU ADEILADU
Uned 7A, Parc Gwynfryn,
Crymych. SA41 3RQ
Ffôn: 01239 831444

COLIN JOHN
Llewelyn Davies
Cyfrifwyr Siartredig
Hendygwyn
01994 240254
www.llewelyndavies.co.uk




Adrian Llewellyn
Groundworks Cyf



Dros 30 mlynedd o brofiad yn clirio daear
Gwasanaeth proffesiynol cyflawn
Pob agwedd o waith concrid i'r fferm
Gosod pibau a chebl
Ffensio, tirlunio, draenio
Llwynhelig, Llandysilio, Clunderwen
Ffôn / Ffacs: 01437 563425

HUW OWEN
CLUDIANT



Rhydymoch
Llandysilio
Clunderwen
Sir Gaerfyrddin
SA66 7UR
☎: 01437 563725 • 07798 885305

CWMNI PEIRIANNEG
HENDYGWYN AR DAF CYF.
(WHITLAND ENGINEERING LTD.)
GWAITH HAEARN O BOB MATH
SEFYDLU · ADEILADU · WELDIO
ARBENIGWYR YNG NGWAITH
HUFENFEYDD A BRAGDAI
GWAITH CYNNAL A CHADW
Uned B
Heol y Gorllewin
Hendygwyn ar Daf
Ffôn: 01994 240442
Ffacs: 01994 240937



# MERCHED Y WAWR

## Cangen Gronw

Daeth nifer dda o'r aelodau at eu gilydd ar brynhawn Mercher, 24ain Ebrill i Festri Ramoth Cwmfelin. Rhoddwyd ymddiheuriad ar ran Jane Evans. Cydymdeimlwyd â Valerie Davies ar golli chwaer yng nghyfraith yn ddiweddar a dymunwyd yn dda i Nansi Evans ar achlyur ei phenblwydd yn 99 oed. Bu chwech aelod yng nghinio'r Llywydd Cenedlaethol ar Sadwrn, 6ed Ebrill yng Ngwesty'r Cliff, Gwbert. Mwynhawyd cinio ac adloniant arbennig gan barti 'Ar ôl Tri'. Casglwyd enwau ar gyfer y cyfarfod nesaf sef Tê Prynhawn yng Nghaffi Gerddi Hywel Dda gan Mary Phillips. Roedd Susan, Wenfys a Llinos yng ngofal y tê ac enillwyd y raffl gan Sian.

Pleser o'r mwyaf oedd i Meinir, llywydd y mis, gyflwyno gwestai arbennig sef 'Perlau Taf' ynghyd â chriw o'i dilynwyr. Gwnaeth yr aelodau olrhain hanes y grŵp o'r dechrau yn deg. Roeddent yn ddyledus iawn i John Arfon Jones am gadw cofnodion manwl o bopeth a wnaethant. Soniwyd am Euros a Tecwyn a'u rhieni a fu yn ffyddlon iawn iddynt. Hefyd Roy a Rhoswen Llewellyn a John a Ruby Jones. Yn y Nosweithiau Llawen cyntaf bu William Evans a Meurig James yn eu cynorthwyo. Pob un yn ddisgyblion yn Ysgol Ramadeg Hendy gwyn ar daf . Cyngerdd yn y gogledd nos Sul a nôl i'r ysgol bore Llun!

Synodd yr aelodau am y nifer fawr o gyngherddau dros Gymru gyfan. Roeddent yn ffodus iawn o dalentau eu cefnogwyr oedd yn cyfansoddi geiriau a thônau gwreiddiol iddynt. Yr apêl yn ôl erthygl o'r cylchgrawn 'Asbri' oedd 'y didwylledd naturiol, canu o'i calon, teimlo i'r byw geiriau eu caneuon.' Cafwyd hanes ei datblygiad, y cyngherddau a'r gwisgoedd. Rhyfedd fel mae ffasiwn wedi newid. Un o'r uchafbwyntiau oedd cyrraedd rhif 1 y sartiau Cymraeg. Camp yn wir gan iddynt ddisodli Dafydd Iwan. Cyflwynwyd lluniau yn ddigidol a chafwyd sawl cân 'Ti a mi', 'Dod ar fy Mhen', 'Rhyddid i Gymru' ond i enwi rhai. Y lleisiau yn dal mor felfedaidd. Diolch iddynt am yr holl waith paratoi ac am yr atgofion a ddaeth yn ôl nid yn unig i aelodau y grŵp ond i aelodau y gangen. Dyddiau da yn wir.




Bet, Mari, Carol, Eirlys a Sian. Perlau Taf yng nghwmi John Arfon Jones (trefnydd) a Roy Llewellyn (arweinydd)




Bet, Mari, Carol, Eirlys a Sian

## Cangen Beca

Ar brynhawn hyfryd ym mis Mai aeth rhai o aelodau'r gangen am dro tua Llangrannog. Pwrpas y daith oedd cael ymweld â chofeb Cranogwen. Gwnaethom werthfawrogi popeth yn fawr a phawb wedi mwynhau pob munud o'r ymweliad.

Wedyn, troi am adre, ond rhaid oedd aros am bryd o fwyd ym Mhen y Bryn. Gwnaeth pawb fwynhau swper blasus dros ben ar ôl treulio prynhawn wrth eu bodd.

Byddwn yn cyfarfod ym mis Mehefin i wneud trefniadau am y flwyddyn nesa. Dewch a syniadau ar gyfer cyfarfodydd y flwyddyn. Diolch.

DAVIES
CWMNI ADEILADWAITH
Contractiwr Adeiladau Amaethyddol
Llogi Peiriannau
Arbenigwr mewn gwaith concrid
Parlyrau Godro • Iardiau Concrid
Paneli ac Estyll Concrid
Cysylltwch â Wyn Davies
Fferm Blaenwaun, Hebron, Hendygwyn ar Daf
Ffôn: 01994 419720 / 07791 168326

DAVIES
Y GWRES
A'I FERCHED
Plymio a Gwresogi
07792 947227
ebost: hyweldavies65@gmail.com

T. D. LADD
a'i Gwmni
SIOP NWYDDAU HAEARN
Belle Vue
Clunderwen
Ffôn: 01437 563217

## Cangen San Cler

Cynhaliwyd y Cyfarfod Blynyddol ar nos Fawrth, Ebrill 9fed yn Yr Hen Ysgol. Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y llywydd, Annalyn. Roedd 18 yn bresennol.

Amlinellodd Annalyn weithgareddau'r flwyddyn aeth heibio.Trefnwyd rhaglen amrywiol yn ystod y flwyddyn ac mae hyn yn glod i'r gangen. Diolchodd Annalyn fod y gangen wedi newid y noson i hwyluso pethau iddi hi. Diolchodd i'r swyddogion i gyd am wneud eu gwaith yn ddiffws a dibynadwy yn cynnwys trefnu siaradwyr, trefnu bwyd a threfnu trafnidiaeth i'r aelodau. Diolchodd i Sue o'r Hen Ysgol am ein sbwylio ni ac i'r aelodau am eu presenoldeb.

**Ethol swyddogion.**
Penderfynwyd ar swyddogion fel â ganlyn:
Llywydd – Annalyn
Ysgrifenyddion
- Cofnodion a Gohebydd y Wasg – Beti-Wyn
- Rhanbarth a Chenedlaethol – Iona
- Rhaglen – Marian a Jane

Trysorydd – Pat
Is-drysorydd – Lilwen
Trefnyddion te – Doreen, Eirwen, Sharon, Janet
Dosbarthydd Y Wawr – Eileen

**Noson cyfarfod** – ail nos Fawrth y mis.
Yn dilyn y Cyfarfod Blynyddol cynhaliwyd cyfarfod cyffredin lle gwyntyllwyd syniadau am raglen y tymor nesaf.

Mwynhawyd te a chacennau blasus a baratowyd gan Sue o'r Hen Ysgol. Rhoddwyd y wobr raffl gan Janet ac fe'i henillwyd gan Nia.

Llongyfarchiadau mawr i Lilwen ar ennill y cystadlaethau trefnu blodau yn y Rhanbarth. Pob hwyl iddi nawr wrth gystadlu yn y Sioe Fawr.

## CORLAN

Cafodd Corlan noson hyfryd yn Nhafarn Sinc yn diddanu trigolion yr ardal. Perfformiwyd casgliad o ganeuon Cymraeg. Yna bu Corlan yn Alma yn rhoi adloniant, a chafwyd llawer o hwyl wrth i'r aelodau ganu caneuon amrywiol a pherfformio ambell sgets. Braf oedd cael gwahoddiad hefyd i ganu yn Eglwys Sant Brynach, Llanboidy yn ddiweddar. Diolch i bawb



Corlan yn Nhafarn Sinc



Perfformio sgets yng Nghanolfan Alma



Canu yn Eglwys Llanboidy

Preselistorage cyf.
Containers ar werth neu i'w llogi
Ffôn: 01834 860227 / 07969 343159
GORSAF BETROL PRESELI CYF.
Llanddewi Efelffre, Arberth SA67 7PD
ar agor 5y.b. - 10y.h. bob dydd
Olew dros Gymru Oil4Wales
LONDIS
01834 860227

R. M. JONES
CYFRIFYDD AC AMCAN-GYFRIFYDD
Bridge End House
Clunderwen
Ffôn: 01437 562185 / 07831 426456
e-bost: meurigj@hotmail.com

Bysiau Cwm Tâf
"Os am deithiau hwylus braf
Dewch da ni ar fws Cwm Tâf"
PENRHEOL,
HEN-DY-GWYN,
SA34 0NH
01994 240 908
www.tafvalleycoaches.co.uk

# Colofn Llên

*gan Marian Thomas*

Un o'r perlau ymhlith llyfrau'r llynedd oedd **Pridd** gan Llŷr Titus ac oherwydd hynny mynnais gopi o'i nofel ***Anfadwaith*** - er nad oedd y broliant yn apelio ata i. Dyw ffilmiau a nofelau tywyll a ffantasïol ddim at fy nant i ac er yn gwerthfawrogi crefft yr awdur roedd yr enwau a'r stori'n ddieithr. Efallai y byddai'n apelio at wylwyr *Game of Thrones* a'i debyg. Cefais fy rhybuddio am hynny gan y gŵr hynaws a darllengar o Bwll Trap ond anwybyddais ei farn er iddo yntau gael blas anghyffredin ar y gyfrol gyntaf a fenthyciais iddo.

Mewn sesiwn *Zoom* wedi'i drefnu gan Ferched y Wawr deufis yn ôl dyfynnodd Bethan Gwanas y sylw hwn gan Albert Camus – 'Mae gan y rhai sy'n sgwennu'n glir, ddarllenwyr; mae gan y rhai sy'n sgwennu'n astrus neu'n aneglur, sylwebyddion.' Dydy hi ddim yn 'sgwennu'n posh' meddai ac nid yw am i bobl deimlo'n dwp nag angen estyn am y geiriadur ond am iddynt fwynhau'r llyfr. Dwedodd un adolygydd am ei nofel ***Prawf Mot*** iddi gael 'ysfa i grio' gan ganmol y stori i'r entrychion ond doedd stori wedi'i hysgrifennu o safbwynt ci ddim yn apelio ataf i. Dwedodd adolygydd arall bod gormod o lawer o gyfeiriadau at yr hyn a wna ci wrth fynd am dro – oes rhaid i mi egluro?

Cyhoeddodd dros 40 o lyfrau gan gynnwys rhai ar gyfer oedolion, plant a dysgwyr ond ei hoff gynulleidfa, meddai, yw'r arddegau gan ei bod 'dal yn 16 oed yn ei phen' – fel llawer ohonom ninnau mae'n siŵr! - ac er mai llyfr ar gyfer ieuenctid yw ***Gladiatrix*** fe'i prynais ar ôl clywed ganddi bod oedolion wedi'i gwerthfawrogi. Mae'n llwyddo'n rhyfeddol i ddarlunio oes erchyll o ryfelgar a chreulon y Derwyddon a'r Rhufeiniaid gan fynd â ni o Fôn i Rufain yr Ymerawdwr Nero, i fyd caethwasiaeth ac ymladd gladitoriaid yr awditorium yno. Mae ôl ymchwilio manwl yma a'm hysgogodd i chwilio ar y we am hanes nifer o'r cyfeiriadau. Er bod tipyn o waed a lladd ynddi, roeddwn am wybod tynged Rhiannon a'i chwaer a'u hymladd dipyn yn ffyrnicach na rhai ar y rhaglen *Gladiators* a atgyfodwyd yn ddiweddar.

Yn Eisteddfod yr Urdd Meifod cyhoeddir enillwyr gwobr llenyddiaeth Tir na n-Og sef gwobrwyo'r llyfr gorau ar gyfer plant a phobl ifanc mewn dau gategori.

Ar restr fer y cynradd mae dwy stori Nadoligaidd - ***Jac a'r Angel*** gan Daf James a ***Mari a Mrs Cloch*** gan Caryl Lewis; hefyd ***Y Gragen*** gan Casia Wiliam ac **Wyneb yn Wyneb** gan Sioned Wyn Roberts. Prynais y nofel gyntaf i wyresau 9-11 oed a hwythau wedi mwynhau ei darllen fesul pennod yn y nosweithiau yn arwain at y Nadolig. Llyfr i blant iau yw'r ail. Llyfr mewn mydr ac odl yw'r trydydd a'r olaf am Twm sy'n lleidr, twyllwr a bwli ond daw tro ar fyd iddo.

Yn y categori uwchradd, y testunau ddaeth i'r brig yw ***Astronot yn yr Atig*** gan Megan Hunter, ***Fi ydy Fi***, Sian Eirian Lewis a ***Sêr y nos yn gwenu*** gan Casia Wiliam. Stori llawn dychymyg yw'r gyntaf a llyfr gwybodaeth i ferched am dyfu i fyny yw'r ail ar y rhestr ac fe'i prynais i wyres 11 oed – mae'r dylunio'n effeithiol. 'Byddai'n well i mi ei ddarllen siŵr o fod!' oedd ei hymateb. Stori i rai ychydig yn hŷn yw'r drydedd a ddisgrifir fel 'stori gariad gignoeth, sydd hefyd yn stori am gymuned, am ddysgu, am fentro ac am faddeuant'.

Cofiwch y teitlau uchod pe baech am brynu llyfr yn anrheg i blentyn ar faes yr Ŵyl. Torrwyd cyllid y Cyngor Llyfrau fel yr Amgueddfa a'r Llyfrgell Genedlaethol ac mae angen i ni gefnogi gweisg a siopau llyfrau Cymraeg os medrwn ni.

## Sefydlu Gweinidog a Gofalaeth Newydd

Roedd nos Wener, 12fed Ebrill 2024, yn noson arbennig iawn yng Nghapel Heol Awst, Caerfyrddin. Yn ogystal â bod yn Oedfa Sefydlu'r Parchg Beti-Wyn James yn weinidog ar Eglwysi Elim, Ffynnon-ddrain a Heol Awst, crewyd gofalaeth newydd, sef gofalaeth Caerfyrddin a Bancyfelin, wrth uno Ggofalaeth y Priordy, Cana, a Bancyfelin, gyda gofalaeth Heol Awst ac Elim. Gan ei bod yn noson bwysig, nid yn unig i'r eglwysi ac i Beti-Wyn, ond i dref Caerfyrddin hefyd, pleser oedd cael rpesenoldeb Maer a Maeres y dref, ac Uchel Siryf Dyfed a'i chymar, y mae Beti-Wyn yn gaplan iddynt.

Llywyddwyd yr oedfa gan y Parchg Tom Defis, Cadeirydd gofalaeth Elim a Heol Awst. Wrth groesawu pawb, mynegodd y golled a gafwyd wrth inni gofio am y diweddar Roland Jeremy, ysgrifennydd Elim, a fu'n rhan o'r trafodaethau, ac y claddwyd ei lwch yn gynharach yn y dydd. Organydd y noson oedd John Evans, un o gyfeilyddion Elim.

CEFINVAUGHAN
Ffotograffiaeth / Photography
Ffotograffiaeth ar gyfer bob achlysur
Photography for all occasions
Cefin Vaughan
07788233327
cefinvaughan@hotmail.com
hapus i siarad Cymraeg!

GAREJ WYN CYF
Uned 1 Parc Gwynfryn
Crymych, Sir Benfro
SA41 3RG
MOT
Gwasanaeth •Atgyweirio
Teiars • Batris
Ffôn: 01239 831300
Ffacs: 01239 831853

TAF
AMSER AGOR
Llun - Gwener 7- 5.30
Sadwrn 7-12.00
MASNACHWYR ADEILADU
Iard yr Hen Orsaf
Heol yr Orsaf, San Clêr
Ffôn: 01994 230239
Ffacs: 01994 232772

Y Parchg Catrin Ann, Pentre Morgan, oedd yn gyfrifol am yr Alwad i Addoli, a'r Parchg Sian Elin Thomas, Crymych, a ddarllenodd o'r Gair cyn i'r Parchg Dewi Myrddin Hughes, Clydach offrymu gair o weddi. Joan Thomas, Cofnodydd Pwyllgor Diaconiaid Gofalaeth Elim a Heol Awst, a roddodd Hanes yr Alwad gan sôn am gyfanrif yr aelodaeth sydd bellach dros 500, a diolch i'r pregethwyr a fu mor barod i dderbyn ein gwahoddiad i ddod atom i gynnal oedfaon pan oeddem yn ddi-weinidog.



Yn gyfrifol am y Sefydlu, y rhan hanfodol o'r oedfa, oedd Llywydd y noson. Wrth i Beti-Wyn ymateb diolchodd i bawb am bob cymorth, ac am y fraint o gael arwain Eglwysi'r Priordy, Cana, a Bancyfelin, am ddwy flynedd ar hugain. Ymhyfrydai bod yr aelodau wedi caniatáu iddi dod i 'nabod eglwysi'r ardal drwy eu gwasanethu yn ôl y galw dros y blynyddoedd diwethaf a agorodd y drws at drafodaethau. Ffrwyth y trafodaethau hynny oedd yr achlysur arbennig hwn o sefydlu Gofalaeth newydd.

Cyflwynwyd yr Emyn Urddo o waith y diweddar Barchg O T Evans gan Natalie Morgan, Aberteifi, cyn i Sulwyn Thomas, Cadeirydd Gofalaeth y Priordy, Cana, a Bancyfelin, gyflwyno Beti-Wyn ar ran yr Ofalaeth honno. Soniodd am y cyd-weithio a fu gynt ar wahanol adegau, a sut y datblygodd y berthynas ymhellach, gan arwain yn ddigon naturiol at lunio Gofalaeth newydd. Estynnodd Bet Jones, Elim, groeso ar gân ar ran Elim a Heol Awst, gan gyfeirio, mewn arddull hwyliog, at y gwahanol agweddau o fywyd Beti-Wyn. Cafwyd eitem ddoniol ar ffurf rap gan blant bach Ysgol Sul Elim, ac ymunodd Beti-Wyn yn yr hwyl gan rapio wrth gyflwyno rhodd fechan iddynt i gyd. Estynnwyd deheulaw cymdeithas i Beti-Wyn gan ysgrifenyddion y pum eglwys, cyn iddynt gyfarch ei gilydd fel arwydd bod cwlwm newydd yn dechrau rhwng y bum Eglwys. Y Parchg Guto Llywelyn a gyflwynodd weddi fer dros yr Ofalaeth newydd.

Yn dilyn hyn cafwyd cyfarchion gan Jean Lewis, is-gadeirydd Cyfundeb Gorllewin Caerfyrddin. Soniodd mor braf yw gweld eglwysi yn gwahodd gweinidog newydd atynt, gan obeithio y bydd pawb yn ofalgar ohoni. Wrth i'r Parchg Emyr Williams, cadeirydd Cwrdd Dosbarth Myrddin, estyn cyfarchion ar ran y Cwrdd Dosbarth, cyfeiriodd yn ysgafn at y chwythwm o wynt a ddaeth i'w plith bron i chwarter canrif yn ôl, ac un a fu'n weithgar gyda hwy byth oddi ar hynny.

Pregethwyd gan y Parchg Guto Prys ap Gwynfor, Llandysul, ar adnod 20 o'r drydedd bennod o Lythyr Paul at y Philipiaid: "Oherwydd yn y nefoedd y mae ein dinasyddiaeth ni, ac oddi yno hefyd yr ydym yn disgwyl Gwaredwr, sef yr Arglwydd Iesu Grist." Pwysleisiai Paul mai Iesu Grist yw'r Gwaredwr, y gwerinwr o Nasareth, a groeshoeliwyd, ac a atgyfododd ar y trydydd dydd.
I ddwyn noson hanesyddol a llawen i ben, gyda phawb yn llawn brwdfrydedd wrth edrych tua'r dyfodol, canwyd yr emyn olaf, a gwneud casgliad tuag at Apêl Ffynhonnau Byw Undeb yr Annibynwyr Cymraeg a Chymorth Cristnogol.

Yna aeth y gynulleidfa o tua dau gant i'r festri i fwynhau swper helaeth, cymdeithasu, a gwylio Beti-Wyn yn torri'r gacen hardd, bwrpasol, o waith Nia Evans, Elim. Yn rhan o addurniadau'r gacen roedd lluniau pum Capel yr Ofalaeth, y car coch a'r ffôn fach, gyda hi ei hunan, ei gliniadur, a'r Beibl agored, ar y top.

Bu'r noson yn gychwyn ardderchog i'r bennod newydd hon yn hanes y dystiolaeth Gristnogol Gymraeg yng Nghaerfyrddin a Bancfyelin. Diolchwn i Dduw am y cyfle hwn a daeth i'n rhan a gweddiwn am Ei fendith ar waith yr ofalaeth. *Joan Thomas*



Beti Wyn gyda pawb a gymerodd ran

Tomos Rees
NEW HOUSE GARAGE
Atgyweirio a M.O.T.
**Ffôn: 01994 230041**

HAYDN LLOYD BSc / DMS - Cyfarwyddwr
ALLPUMP SERVICES
ARBENIGWYR MEWN PWMPS FFYNNON A TYLLAU, TRINIAETH CARFOSIAETH, SYSTEMAU DŴR BRWNT A SOLAR
Fferm Ffynnonlwyd
Llangynin
San Clêr
SA33 4LD
Ffôn: 01994 448310
Ffacs: 01994 448693
e.bost:
enquiries@allpump.co.uk

PHIL & SIÔN HARRIES
SEIRI COED
EFAIL FACH
HENLLAN AMGOED
FFÔN:-
01994 240857

# GELLYWEN

**Ainon**

Cydymdeimlwn â John Lewis, Meidrim a Ray Evans, San Cler sydd wedi colli nith, ac i weddill y teulu eang ar golli cyfnither, sef Ann Jenkins, Lon Wen, Pwlltrap a fu farw ar Ebrill 12fed a hi ond yn 62 mlwydd oed.
Cafodd angladd barchus yn Amlosgfa Parc Gwyn a oedd o dan ofal Mrs Jean Lewis ar Ebrill 24ain. Yr archgladdwyr oedd y tîm dartiau a fu yn eu chefnogi am flynyddoedd cyn cael ei chaethiwo gan afiechyd. Un aelod yn llai eto gyda ni yn Ainon.

# MEIDRIM

Ar Fai 7fed croesawodd Glyn James 21 o aelodau i'r cyfarfod. Ein gŵr gwadd oedd Mr Mark Oriel o Sancler. Siaradodd am wahanol ffurf o gadw'n iach. Bu'n dweud wrthym sut mae 'Natur Mam' yn ein galluogi i fyw a bodoli'n fwy iach, hefyd sut mae gwahanol blanhigion yn llesol i ni. Buom yn gwrando'n astud arno gan ddysgu llawer. Diolchwyd iddo gan Glyn James.

Bydd y cyfarfod nesa ar Fehefin 4ydd pan fydd Gareth Richards (cogydd enwog S4C) yn coginio i ni.
Wrth y te - Morfydd Davies, Hilda Mason, Sally James, Glyn Harbour.
Yn rhoi'r raffl - Patsy Lewis, Lilian Rees, Ambrose Lewis, Violet Thomas.

## *Penblwydd Hapus yn 90 oed*




Hoffai Archie Lewis,13 Lon Ddewi, Meidrim ddiolch yn fawr iawn i bawb am y dymuniadau da a'u haelioni ar achlysur ei benblwydd yn 90 oed.

# RHYDWI LYM

Falch i weld Ieuan Davies, Allt y Pistyll o gwmpas y lle ac yn teimlo'n well. Bu Ieuan yn ysbyty Treforys yn derbyn llaw driniaeth ar ei wefus. Dymunwn wellhad buan a llwyr iddo.

**Y Capel**

Diolch yn fawr i Annalyn Davies am wasanaeth Gymun brynhawn Sul, Ebrill 28ain. Gwnaeth gofio am y diweddar Barch. Llinos Edwards, ac estynnodd ei chydymdeimlad i'r teulu.

Mai 26ain: 10.30 (Cymun) – Parch. Ken Thomas
Mehefin
9fed: 10.30 Gwasanaeth yng ngofal Brian Llewelyn a'r teulu.
23ain : 2.00 Cymun - Parch. Euros Jones Evans.

Bu ein aelod hynaf, sef Iwan Lewis, Delfryn, yn dathlu ei benblwydd yn 90 oed ar y 1af o Fai. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da iddo wrth bawb.

# LLANBOIDY

Gwellhad buan i'r canlynol - Ivy Phillips, Dolau Gronw sydd wedi torri ei phigwrn, Valerie Dixon, Penllwyngwair sydd wedi treulio peth amser yn yr ysbyty, ac hefyd i Wyn Makepeace, Island House sydd wedi cael triniaeth yn Ysbyty Treforys.

**Sefydliad y Merched**

Ym mis Ebrill, croesawodd y llywydd, Denise Harris yr aelodau i'r cyfarfod ac o dan hyfforddiant Valerie Dixon buont yn dysgu gwaith piwter. Yn y cyfarfod busnes, bu Denise yn llongyfarch y tîm dartiau o Lanboidy a ddaeth yn drydedd yng nghystadleuaeth dartiau'r sir. Bu Denise a Valerie yng nghynadledd y Sefydliad a gynhaliwyd yng Nghaerdydd a bu'r aelodau'n gwneud trefniadau ar gyfer y cyfarfod grŵp bydd yn cael ei gynnal yn Neuadd y Farchnad ar brynhawn Sadwrn, 20fed o Ebrill.

**Chwaeroliaeth**

I orffen tymor y gaeaf aeth yr aelodau lawr i'r Corvus yn San Clêr i gael cinio. Croesawodd y llywydd Wenfys Rees pawb at y byrddau ac ar ôl dweud grâs, bu pawb yn mwynhau'r bwyd blasus. Bu Wenfys yn diolch i bawb am eu cefnogaeth ar hyd y tymor ac i Delyth am drefnu'r cinio. Cyflwynwyd basged o flodau i Rose

**C J Waste cyf.**
Carl Britton
01994 238367
07506 482007
cjwasteltd@yahoo.com
Prisiau ardderchog
Gwagio tanciau septig / carthbyllau
Britton Villa, Llangynin,
Sanclêr. SA33 4JZ

Carwyn a Sian James
J. K. Lewis a'i Fab
Glandy Cross.
SPAR
*Nwyddau di-ri ar gael gan gynnwys Petrol, Gwin a Chwrw, Glo, Tocynnau Trydan, Nwy, Loteri a phob peth fydd angen arnoch ar unrhyw achlysur.*
**Ar agor Llun i Sadwrn - 6.30 y.b. - 9 y.h.**
**Dydd Sul - 7 y.b. - 6 y.h.**
Ffôn: 01994 419230

G WILLIAMS
a'i FEIBION
Monumental Masons
SEIRI MEINI COFFA
Pentre Yard
San Clêr
Ffôn: (01994) 231390

Saer am ei gwasanaeth fel trysorydd y mudiad am un mlynedd ar bymtheg a diolchodd Ann Lewis i Wenfys am ei gwaith fel llywydd



Aelodau'r Chwaeroliaeth yn eu cinio blynyddol



Wenfys yn cyflwyno blodau i Rose Saer

# HENLLANFALLTEG

Penblwydd hapus iawn i Ann Mathias, Penback, Henllan Amgoed a oedd yn 75 oed ar 23ain o Fai. Cariad mawr wrth y teulu.

## TEYRNGEDAU

**Elfed Marc Beasley**

Trawyd ein hardal yn fud pan dderbyniwyd y newyddion trist am farwolaeth sydyn ac annisgwyl Marc Beasley yn 37 oed ar y 15ed o Fawrth eleni. Un o blant Henllan oedd Elfed Marc, Ffynnon Hiraeth, mab hynaf Diane ac Elidyr, a brawd mawr Ifan a Heulwen.

Derbyniodd ei addysg gynradd yn yr ysgol leol cyn symud i Ysgol y Preseli. Yn ŵr ifanc a chydnerth, gweithiodd yn galed mewn amrywiol swyddi, gan ymgartrefu yn Foel Drigarn, Crymych.

Roedd ganddo ddiddordeb eithriadol mewn amrywiaeth eang o chwaraeon - rygbi a phêl-droed, seiclo a rhedeg, ynghyd â champ heriol 'Ironman'. Ym mhob un o'r meysydd hyn, enillodd Marc lu o gyfeillion, ac amlygwyd hynny pan ymgasglodd llond capel a mwy yn y gwasanaeth o ddiolch am ei fywyd yng Nghapel Henllan ar ddydd Llun y Pasg.

Gwasanaethwyd gan y Parchedigion Guto Llywelyn a Rhodri Glyn, a chafwyd teyrngedau hardd mewn gair a chân gan ei ffrindiau mynwesol Alun John Griffiths a Trystan Llŷr Griffiths.

Yn dilyn gosod ei gorff i orffwys ym mynwent Henllan, cafodd teulu a ffrindiau gyfle i rannu atgofion amdano dros gwpaned o de.

Estynnwn, fel ardal, ein cydymdeimlad dwysaf â theulu a chyfeillion Marc yn eu hiraeth mawr am gymeriad hoffus a direidus, gan ddiolch am y fraint o gael adnabod y cawr addfwyn â'i wên lydan.

**Y Parchedig Llinos Ann Edwards**

Bum niwrnod wedi ffarwelio â Marc, cynhaliwyd gwasanaeth coffa'r Parchedig Llinos Ann Edwards yng Nghapel Rhydwilym, yng ngofal ei chyn-weinidog, y Parchedig Peter Thomas.

Gwraig a ddaeth i'r ardal yn weinidog ar ofalaeth Henllan, Capel Mair a Chwm Miles yn 1999 oedd y Parchedig Llinos Ann, a hynny yn dilyn galwad i'r weinidogaeth wedi i'w phlant dyfu'n oedolion.

Bu'n weinidog cydwybodol yn yr ardal tan 2005, a pharhaodd y cyfeillgarwch rhyngddi â thrigolion y fro yn dilyn ei hymadawiad â'r weinidogaeth ffurfiol. Roedd Llinos yn wraig addfwyn a siriol a anwylodd ei hun at bawb y daeth i gysylltiad â hwy, a braint fu derbyn o'i harweiniad doeth a'i hysbrydoliaeth.

Dioddefodd yn dost yn ystod ei blynyddoedd olaf gan glefyd creulon a chwalodd, bob yn dipyn, finiogrwydd ei meddwl a disgleirdeb ei phersonoliaeth hardd. Derbyniodd ofal diwedd oes yng Nghartref Woodfield, Arberth, lle y bu farw ar y 27ain o Fawrth yn 79 oed.

Yn y gwasanaeth coffa ddydd Sadwrn, y 6ed o Ebrill, clywsom am sêl diwyro Llinos dros Gymreictod a Christnogaeth drwy gydol ei hoes, a hynny wedi'i wisgo bob amser â chadernid tawel.

Claddwyd Llinos Ann gyda'i hannwyl Rob ym mynwent dawel ei hoff Rydwilym, ac estynnwn ein cydymdeimlad didwyll â'i theulu a'i chyfeillion yn eu hiraeth am wraig hawddgar o argyhoeddiad dwfn.

*Eleri Roberts*

RHYDWYN DAVIES
TRYDANWR
Parcylleine, Blaenffos, Boncath. SA37 0HZ
NICEIC APPROVED CONTRACTOR
Ffôn: 01239 831212
Symudol: 07836 751238

AM Y DEWIS GORAU GALWCH HEIBIO
SIOP Y PENTAN
Y Farchnad, Caerfyrddin
*Anrhegion Cyfoes Cymraeg*
*Llyfrau Cymraeg*
*CD's*
*Cardiau Cyfarch*
*a llawer mwy*
Ffôn: 01267 235044

Fferyllfa Clunderwen
GWASANAETH DOSBARTHU AR GAEL
Os ydych am i ni archebu eich presgripsiwn, cysylltwch â ni
Ffôn: 01437 563228
Fferyllfa Clunderwen, Crinow Glebe, Clunderwen. SA66 7NP

## Llongyfarchiadau




Llongyfarchiadau i Cadi Williams Blaenlliwe, Henllan Amgoed ac i garfan tîm rygbi cyntaf menywod Prifysgol Caerdydd am ennill Varsity Cymru 2024. Y sgôr terfynol oedd Caerdydd 71-Abertawe 12.

*Llongyfarchiadau mawr i ti Cadi am dderbyn dy ail gap!*

# PWLL TRAP

Trist oedd clywed am farwolaeth Anne Jenkins, Lôn Wen, yn 62 oed. Cydymdeimlwn gyda'i theulu oll.
Gyda thristwch y clywsom, hefyd, am farwolaeth sydyn Mrs. Eileen Jones, Delfan. (fferm Aber, Llangynin gynt). Cydymdeimlawn yn ddidwyll â'i phlant, Eryl, Geraint ac Aled a'u teuluoedd ar eu colled.
Bu farw William James, Caerfyrddin, brawd Don, a brawd-yng-nghyfraith Rita, Hafan Hedd. Cydymdeimlwn â hwy ar eu colled.
Dymunwn yn dda i Rhydian Phillips, Anfield, sydd wedi derbyn llaw driniaeth yn ddiweddar.

**Bethlehem Newydd**
Mae'n siwr eich bod wedi cael y profiad wrth deithio trwy Gymru o weld capeli wedi cau a'u gadael i ddadfeilio. Darlun trist iawn o ddirywiad anghydffurfiaeth a thystiolaeth bod cynnal a chadw capeli wedi mynd yn faich i gynulleidfaoedd sy'n heneiddio. Hwyrach y gall y lluniau hyn o Bethlehem Pwlltrap ar ei newydd wedd gynnig gobaith mewn cyd-destun heriol.

Wrth edrych i'r dyfodol fel gofalaeth o bedwar capel penderfynwyd bod gennym ormod o adeiladau. Yn hytrach na gweld hyn fel rhwystr fe'u hystyriwyd yn adnoddau gwerthfawr. Ond roedd yn rhaid cael cydweithrediad ymddiriedolwyr i gau dau gapel a'u gwerthu - proses hir sy'n rhaid ei gyflawni yn ofalus a sensitif. Gweithred dewr yw bod yn barod i gau'r drws am y tro olaf ar gartref ysbrydol a mangre i fedyddio, priodi a chladdu i'r teulu. Ond dyna a ddigwyddodd.

A dyma ddod wyneb yn wyneb a dau gorff sydd yn benderfynol o oedi'r broses. Comisiwn yr elusennau sy'n gorff wedi hen oroesi ei ddefnyddioldeb ac yn gwrthod ymateb i unrhyw ymholiad a chyfreithwyr sy'n mynnu dewis y llwybr mwyaf araf a chostus o weithredu. Peidiwch a gadael iddyn nhw reoli y broses. Mae na ffordd o wneud hyn ond dw i ddim yn bwriadu ei osod ar bapur - rhag ofn!

Dyw'r problemau ddim ar ben yn anffodus. Mae corff arall sy'n benderfynol o greu rhwystrau dianghenrhaid yn enwedig os yw'r adeilad sy'n weddill wedi ei gofrestru. Y Cyngor Sir sydd wedi creu proses cynllunio er mwyn gohirio y gwaith adeiladu a'ch gorfodi i wario miloedd o bunnoedd.

Ydy hyn i gyd yn werth y drafferth. Os oes gennych chi aelodau hyblyg sy'n barod i dorchi llewys ac adeiladydd sy'n ymroddedig - ydy yn ddi-gwestiwn. Edrychwch ar y lluniau sy'n dangos gofod aml-bwrpas a chysurus ag addoliad yn ganolog iddo.

Yn ffodus mae Undeb yr Annibynwyr wedi caniatau inni gyflogi Swyddog Cymunedol fydd yn sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau o'r adnodd gwerthfawr hwn gan agor y drysau led y pen i groesawu a chenhadu. Mae angen inni ganu clodydd Undeb yr Annibynwyr am y weledigaeth o fuddsoddi ag arloesi - neu fyddai ddim pwynt inni fynd trwy'r broses hirfaith yma.



arwyddion
eaglesigns
Y Gwasanaeth Cyflawn am Arwyddion, Argraffu a Lifrau Cerbydau...
01994 231749
post@eaglesigns-wales.co.uk
www.eaglesigns-wales.co.uk
UNED 3/4, PARC TIR OWEN, SAN CLER

SAER COED
IFAN LEWIS
CARPENTRY
07456 626 735


STEVE DANIELL
Monraker
Plymiwr
a gwaith cyffredinol
"Handyman"
Tir y Bont
Llanglydwen
Hendy Gwyn ar Daf
Ffôn: 07837 089648

Cynhaliwyd oedfa Gymun ar Fai 5ed. Y bregeth oedd y thema a chymerwyd rhan gan yr aelodau Arweiniwyd trafodaeth gan y gweinidog am bregeth a phregethu. Gweinyddwyd y Cymun hefyd gan y Gweinidog. Dai Rees oedd wrth yr organ.

**Tŷ Croeso**



Mae Tŷ Croeso yn parhau i gefnogi Lloches y Gwragedd yng Nghaerfyrddin a Plant Dewi sy'n cefnogi teuluoedd ifanc a phlant sydd angen cymorth. Diolch i Iona Cartwright am wneud yr holl gwiltiau clytwaith yma ar gyfer cots babanod a'u rhoi ar gyfer Plant Dewi. Byddant yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr. Diolch o galon i bawb am ddangos cymaint o garedigrwydd.




# SAN CLER

Trist oedd clywed am farwolaeth disymwth Cyril Wray, Cae Gwyrdd, gynt o Lôn Hafren. Cydymdeimlwn â'i wraig, Brenda, y plant Robert, Teresa ac Anthony a'r teulu oll yn eu hiraeth a'u galar.

Llongyfarchiadau i Ffion Farrier, Lôn Hafren, ar ennill gradd yn ddiweddar.

Mae grŵp Coffi a Chlonc, sydd yn rhoi cyfle i siaradwyr Cymraeg newydd i ymarfer siarad Cymraeg, yn cyfarfod yn Y Gât bob dydd Iau, 11.00 – 12.30 Os hoffech chi ymuno, cysylltwch gydag Annalyn 07783471377. Croeso cynnes i bawb.



**Rhedeg Marathon Llundain**




Bu Tom Hughes o garej George yn rhedeg ym marathon Llundain. Er iddo gael niwed i'w figwrn fe lwyddodd i gwblhau y ras a chodi £2230 tuag at elusen JDRF sy'n cefnogi plant sydd â diabetes Type 1. Ei darged oedd £2000. Bu dau o'i gyd-weithwyr hefyd yn rhedeg – Ryan Thomas a oedd yn codi arian i Tommy's Charity ac Alex Passmore a gododd arian eto i JDRF.

**Rosemarie Davies**
Cyfrifydd Technegol
Treth Ar Werth — Cyflogau
Cadw Cyfrifon — Hunan Asesiad
Fferm Blaenwaun, Hebron
Ffôn: 01994 419005
Symudol: 07854 212799
Yn drwyddedig gan
Association of Accounting Technicians

Delwedd
07814 543634
*Salon Harddwch a Chyflenwol*
Crymych
Triniaeth o safon mewn awyrgylch gartrefol gan Nia

Wyndham Phillips a'i Feibion
POBYDDION
COUNTY STORES
San Clêr
*Bara a chacennau ffres yn ddyddiol*

Ffôn: 01994 230474

# BANCYFELIN

Hyfrydwch oedd croesawu rhai o drigolion Cartref Plas y Dderwen a Chartref Dol y Felin i festri Cana bnawn Mercher, 1af o Fai ar gyfer paned a chân.  Mae hyn yn rhan o brosiect yr ofalaeth 'eglwysi dementia gyfeillgar'. Diolch i bawb a ddaeth i gefnogi.





## Penblwydd Hapus yn 90 oed



Llongyfarchiadau mawr i un o Flaenoriaid Capel Bancyfelin, Vera Thomas a ddathlodd ei phenblwydd yn 90 yn ddiweddar.

## Gibeon

Cydymdeimlwn yn ddwys â Mark ac Anthea Evans, Ffynnon Dawel ac Elen, Dylan a'r teulu ar farwolaeth tad, tadcu a hen dadcu sef Roy Evans, Ffrwd Wen. Cofiwn amdanynt yn eu colled a'u hiraeth.

Gyda thristwch y clywsom am farwolaeth William (Billy) Davies, Bronygaer ar Fai 3ydd wedi cyfnod yn yr ysbyty. Bu'n ffermio ar hyd ei oes ym Mronygaer, ger Gibeon, mynychai'r oedfaon yn rheolaidd cyn iddo golli ei iechyd a bu'n barod iawn ei gymwynas â'r capel a'r Ysgol Sul. Cydymdeimlwn yn ddidwyll â'i wraig Olive, y plant Owen a Wendy a'u teuluoedd, a'r teulu estynedig i gyd.

Llongyfarchiadau i Meirion a Margaret, Lower Court ar ddathlu eu Priodas Ruddem ddiwedd Ebrill.

Dymunwn benblwydd hapus i Hilary a oedd yn dathlu penblwydd arbennig ar Fai 14eg.

Oherwydd gwyliau, cynhaliwyd Helfa Wyau Pasg yr Ysgol Sul ar Ebrill 14eg. Cafodd y plant hwyl yn gwrando ar Stori'r Pasg ac yna chwilio am yr wyau.



Cynhaliwyd oedfa dan ofal y gweinidog ar Ebrill 21ain. Cafwyd neges gref ganddo yn seiliedig ar ddameg y Samariad Trugarog. Gweinyddwyd y Cymun gan Annalyn a chyfeiliwyd gan Ann.

## Cyflwyno siec i Henoed Bancyfelin.



Dyma Maer Trêf Sanclêr, y Cynghorydd Annalyn Davies, yn cyflwyno siec i Henoed Bancyfelin. Hefyd yn y llun mae Carwen Howells, y Trysorydd a Mai Thomas, yr Ysgrifennydd.

# CEFNBRAFLE

**Diolch.** Dymuna Iwan Lewis, Delfryn, Cefnbrafle ddiolch i bawb am y cardiau, anrhegion a'r galwadau ffôn ar achlysur ei benblwydd yn 90 oed. Diolch hefyd i bawb wnaeth alw mewn a gwneud y penblwydd yn un cofiadwy.

Diolch yn arbennig i Pam a Bill Owens, Meinir Eynon a'r teulu.

# CEFNYPANT

Daeth newyddion annisgwyl ddechrau mis Ebrill am golli aelod ffyddlon o gapel Cefnypant, sef Yvonne Vaughan, Dyffryn Villa, Crymych, neu Yvonne Cilhernin, fel y byddai pawb yn ei galw. Hunodd yn sydyn ar Ebrill 2il.

Wrth feddwl am Yvonne, darlun ohoni wrth yr offeryn yng Nghefnypant, sy'n dod i gof. Cofio amdani yn dod â drych i roi ar yr organ adeg y Gymanfa Bwnc, er mwyn gweld Owen Jenkins, Tower, ac yn ddiweddarach Leslie Phillips, Rhoshill, oedd yn sefyll y tu ôl iddi o flaen y côr ar y galeri, ac yn y drych fe welsai'r arwydd oddiwrthynt i ddechrau chwarae'r organ.

Roedd o hyd yn serchog, yn llawn direidi a hiwmor, bob amser yn barod i longyfarch, gan ymfalchïo a chydlawenhau gyda phobl pa beth bynnag fyddo'r gamp.

Estynnwn ein cydymdeimlad i Bryan, ei gŵr, ac i bob aelod o'r teulu. Yn dilyn mae teyrnged hyfryd i Yvonne, gafodd ei darllen gan Elin, ei nith, ar ddiwrnod ei hangladd yng Nghapel Seion, Crymych.

## Yvonne Vaughan

Gofynnwyd i Yvonne ychydig yn ôl beth oedd ei oed hi. Ei hateb oedd "1929 model ydw i".
Ganwyd Yvonne ar y 10fed o Orffennaf 1929 yn Pantrodyn, Login, y pumed o ddeg o blant i Percy a Mary May Phillips. Yn ddwy flwydd oed, symudodd y teulu i Gilhernin.

Collodd ei mam pan oedd yn un ar ddeg oed. Gyda'i chwiorydd hŷn, bu'n gofalu am ei brodyr a chwiorydd iau. Bu'n ofalus o bob aelod o'r teulu beth bynnag fyddai'r amgylchiad.

Cafodd ei haddysg yn Ysgol Penygaer, ac yna yn yr High School yng Nghaerfyrddin. Wedi hyn, daeth adre a gofalu am y fferm gyda'i brodyr, Wynne a Dai, gan ymroi i bob gweithgaredd o fagu ŵyn swci, dreifio tractor, i lwytho bels gwair ar ben treiler mawr. Rhoddodd gynnig ar fagu cŵn bach wedi cael dau bwdl bach – Nobby a Sindy yn anrheg gan Bryan.

Ynghyd â ffermio, dechreuodd Yvonne weithio yn Nant-y-ffin gyda'i chwaer Muriel a'i gŵr Henry. Bu'n ei helpu nhw i dyfu'r busnes, a bu'n gweithio yno hyd i Muriel a Henry ymddeol.

Ym mis Hydref 1971 priododd a Bryan Vaughan, Dyffryn Mawr yng Nghapel Cefnpant cyn symud i Dyffryn Villa gan dreulio dros 50 mlynedd o fywyd priodasol dedwydd yno. Byddent yn mynd i ffwrdd ar wyliau yn achlysurol a bob hydref byddent yn ymweld ag ardal Henffordd i gasglu cnau, pêrs a phlwms

Un o ddoniau amlwg Yvonne oedd chwarae'r organ gan wneud hynny yn gyhoeddus am y tro cyntaf yng Nghefnypant ddydd Sul, Mawrth 8fed 1942 yn ddeuddeg oed, gan barhau i chwarae hyd yn ddiweddar. Teithiai lawr o Grymych – anaml y collai oedfa gymaint oedd ei hymroddiad. Yn 1974 cafodd ddesg yn rhodd gan yr aelodau fel gwerthfawrogiad o'i gwasanaeth diflino wrth yr organ am 32 o flynyddoedd. Roedd hefyd yn gyd-gyfeilydd ac yn aelod o bwyllgor y Gymanfa Ganu.
(Dylid ychwanegu iddi barhau i chwarae'r organ tan i Cofid 19 gau ein capeli yn 2020, ac Yvonne erbyn hynny dros ei naw deg mlwydd oed.)

Roedd ganddi nifer o ddiddordebau, megis garddio, tyfu blodau, gwnïo a gwaith llaw – yn arbennig gwau.

Ond ei diddordeb pennaf oedd coginio. Byddai'n paratoi'n drylwyr a gofalu bod bwyd yn cael ei weini'n ddeheuig. Os byddai angen bwydo yn rhywle, byddai gyda'r cyntaf yn cyfrannu basgedaid neu lond trei neu ddwy o ddanteithion. Roedd hi'n arbenigo hefyd ar wneud jam, marmalêd, a "preserves" o lysiau a ffrwythau o'r ardd, ac yn ei haelioni, yn rhoi rhan fwyaf yn rhoddion i'r teulu, cymdogion a ffrindiau. Byddai ambell boted gyda hi yn ei bag hefyd, rhag ofn gadael neb allan. Gofidiai am rhai oedd ar eu pennau ei hunain, a gofalai bod platiaid o rywbeth yn barod iddynt hwy hefyd.

Roedd yn berson cymdeithasol – yn hoffi cwmni i sgwrsio a thrafod Bu'n aelod brwd o Ferched y Wawr Crymych, lle bu'n Ysgrifenyddes am flynyddoedd. Hefyd roedd hi a Bryan yn aelodau o'r Clwb Bowlio . Er nad oedd yn chwarae bellach byddai'n mynd gyda Bryan yn gwmni, a hi fyddai'n derbyn yr arian a chadw cyfrif.

Person gweithgar a phrysur. Roedd yn hael a charedig gyda'i amser a'i dawn, ac yn barod i helpu unrhyw un unrhyw bryd. Coffa da amdani.

**Diolch**
Dymuna Dai, Ann, a'r teulu, Rhos, ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd ganddynt ar golli chwaer ac anti hoff, Yvonne Vaughan, Cilhernin gynt.

DH DAVID HARRIES & Co DH
CYFANWERTHWYR FFACTORAU CERBYD
Westgate, West Street, Hendygwyn ar Daf
Ffôn: 01994 241100
Batteries, Belts, Bearings, Compressors, Clutches, Filters, Hydraulics, Oil, Paint.

OWEN PHILLIPS
Llanddewi Efelffre
SAER COED
Ffôn Symudol: 07919 524569



# LLANGYNIN

**Cydymdeimlad**

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Geraint a Llinos, Carreglwyd, a'r teulu, ar farwolaeth mam Geraint, sef Mrs. Eileen Jones, Delfan, Pwll Trap gynt o'r Aber, Llangynin). Tristwch o'r mwyaf oedd clywed am farwolaeth sydyn ' Mrs Jones, Aber', fel y'i hadwaenid o hyd yn ardal Llangynin. Cydymdeimlwn yn fawr â Geraint, Eryl ac Aled a'u teuluoedd i gyd yn eu colled a'u hiraeth.

**Bedydd**

Llongyfarchiadau i Llŷr ac Elin Lloyd, Penlan House, ar fedydd eu merch fach, Maria Eleri Lloyd, yng Nghapel Rhydyceisiaid ddydd Sul, Mai 5ed.



Dyma Maria gyda'i hen-nain Eirwen Lloyd o Rhuthun, ei thaid Haydn Lloyd a'i thad Llŷr.



A dyma lun o Maria ym mreichiau ei hen-famgu Marlene Lewis o Bwll-Trap, gynt o Ffynnonlwyd, Llangynin.

**Dathlu Penblwydd Priodas**

Roedd Granville a Mary Davies, Angorfa, yn dathlu 67 mlynedd o briodas ar Ebrill 18fed. Llongyfarchiadau mawr iawn iddyn nhw!

## Clwb 60

Cyfarfu'r Gymdeithas ar yr 11fed o Ebrill yn ôl ei harfer yn Neuadd y Bryn a chafwyd prynhawn diddorol iawn yng nghwmni Dr Nia Bowen o Rydargaeau, sy'n arbenigo mewn Aciwbigo Meddygol ac Electroaciwbigo. Cafwyd cyflwyniad tu hwnt o frwdfrydig ac arbenigol ganddi a hithau'n son am fanteision y triniaethau. Mae'n cynnig Aciwbigo Meddygol ar gyfer Cyflyrau cyhyrysgerbydol fel poen cefn a gwynegon esgyrnol ymhlith eraill, cyflyrau poenus eraill a.y.b fel Ffibromyalgia, Niwralgia, Cyflyrau'r abdomen a Chyflyrau di-boen.

Roedd yn esbonio'r cyfan mor ysbrydoledig a phroffesiynol a phawb wedi mwynhau'i chyflwyniad yn fawr iawn. Eilir, Cynwyl a Susan oedd yng ngofal y te ac un neu ddwy arall yn helpu ac enillwyd y raffl, oedd yn rhoddedig gan Marlene, gan Susan.

# PENYBONT

**CFfI Penybont**

Cynhaliwyd noson yn Nhafarn Beca i gyflwyno sieciau i'r elusennau mae'r clwb wedi bod yn eu cefnogi dros y flwyddyn ddiwethaf. Cyflwynwyd siec i elusennau'r sir, sef Uned Ganser Ysbyty'r Tywysog Philip ac Epilepsy Uk.

Yna, cyflwynwyd siec i MS Society Cymru. Dyma oedd yr elusen wnaeth y clwb benderfynu codi arian ar ei chyfer, i gefnogi mam cyn-aelod sydd wedi derbyn diagnosis o'r cyflwr. Bu'n braf croesawu'r cyflwynydd Dafydd Wyn Rees fel siaradwr gwadd, wnaeth sôn am ei brofiad personol. Roedd hyn hefyd yn gyfle i'r aelodau ymddangos mewn pecyn gafodd ei ddarlledu ar Heno.

# CLUNDERWEN

**Genedigaeth**

Llongyfarchiadau i Paige a Brad Challimor, Penpwll, Clunderwen, ar enedigaeth merch fach ar 28ain o Ebrill.

….hefyd i Christina a Rhydian Williams ar enedigaeth mab bach arall, ŵyr i Andrew a Janet Davies, Ladds Clunderwen.









**Sefydliad y Merched**



Ym mis Ebrill daeth Kate i wneud ymarfer eistedd gyda'r gwragedd a chafwyd noson hwylus iawn.

Yna, ar y 6ed o Fai, cynhaliwyd Helfa Drysor cerdded yng Nghrymych. Yr enillwyr, sef Janet a Hazel a fydd yn trefnu'r Helfa Drysor flwyddyn nesaf. Da iawn ferched.



**Llongyfarchiadau** i Aled Hughes am gwblhau ei gystadleuaeth Hyrox cyntaf, sef ras ffitrwydd byd-eang, allan yn Bordeaux. Da iawn wir. Ymlaen i'r un nesa nawr.

# LLANDYSILIO

**Blaenconin**

Dydd Sul, Mai 5ed, daeth y Parch Denzil John o Caerfili atom yn Blaenconin. cawsom oedfa fendithiol iawn ac yr oedd yn bleser cael ei gwmni gan ei fod yn un o blant Blaenconin. Yr ydym yn edrych ymlaen i gael ei gwmni eto nes ymlaen yn y flwyddyn.

Diolch hefyd i'r aelodau sydd wedi bod yn brysur iawn yn paratoi Cyfarfodydd ar y Suliau sydd wedi mynd heibio.

**Oedfa Fedydd**



Dyma Elis Bryn Westlake a fedyddiwyd yng Nghapel Pisga ar y 7fed o Ebrill. Mab Rhys ac Angharad Westlake. Diolch i'r Parchedig Eirian Wyn Lewis am gymryd yr oedfa. Hefyd penblwydd hapus i Angharad ar y 7fed oddi wrth y teulu.

**Priodas Ddiemwnt**



Llongyfarchiadau mawr i Anne a George Youngman ar ddathlu 60 mlynedd sef Priodas Ddiemwnt ar 25ain o Ebrill.

**Penblwyddi**

Penblwydd Hapus iawn i Nigel Bevan at ddathlu ei ben-blwydd yn 60 oed ym mis Ebrill.

....hefyd dymuniadau gorau i Frank Shewring ar ddathlu ei ben-blwydd yn 80 oed ar y 9fed o Fai.

.....hefyd Penblwydd Hapus i Betsi Worner, Fern Villa ar gyrraedd ei 80 oed ar 13eg o Fai. Pob dymuniad da oddi wrth ei theulu i gyd.

AWEN TEIFI
Dewis da o lyfrau Cymraeg
i blant ac oedolion,
hefyd cardiau a theganau
Ar agor 9yb - 5yh
Llun i Sadwrn
Ffôn: 01239 621370
23 Stryd Fawr
Aberteifi. SA43 1HJ

CENNYDD JAMES
- Adeiladwr
- Adeiladau newydd
- Adnewyddiadau
- Llwybrau a phatios
- Plastero a sgimio
- Adnewyddu simneiau

Gwasanaeth yn y Gymraeg!
Ffôn: 01239 831100
Ffôn Symudol: 07968 163181

Ifan Phillips 07788 424559
CANOLFAN REHAB CENTRE
therapi chwaraeon
clinigol
ar gyfer anafiadau sy'n
gysylltiedig â chwaraeon a gwaith
Apwyntiadau ar gael yn Crymych a San Cler

## Llongyfarchiadau



Llongyfarchiadau i Sion Jenkins o Landysilio a Lydia Griffith ar eu llwyddiant yn ennill gwobr yng nghategori Newyddiaduraeth neu Gynhyrchiad aml-sgiliau (Y Byd ar Bedwar) yng ngwobrau RTS Cymru.

**Marathon Casnewydd**



Llongyfarchiadau i Iwan Dugmore ar gwbwlhau Marathon Casnewydd ac hefyd i'w frawd Tomos am wneud hanner Marathon Casnewydd yn ddiweddar.

**Dyweddio**

Llongyfarchiadau i Sioned Dugmore a Rob ar eu dyweddiad yn ddiweddar.

**Genedigaeth**

Llongyfarchiadau i Sarah a Robert Wall ar enedigaeth bachgen bach.

....hefyd i Mari Phillips ac Ed ar enedigaeth eu mab, ŵyr bach i Rob a Diane Phillips, gynt o Landysilio.


Cymdeithas Neuadd a Caeau Chwarae Llandysilio

**Gêm Pel-droed Gymunedol**

yng nghae chwarae Llandysilio

**Brodyr Young v Locals Llandysilio**

Dydd Sul, Mehefin 9fed

am

10 o'r gloch

Barbeciw a Raffl






# CWMFELIN MYNACH

**Ramoth**

Cafwyd gwasanaeth Y Parchg Ken Thomas yn oedfa cymundeb mis Mai a bu rhai o'r aelodau yn oedfa Gymun Cymanfa Bedyddwyr Caerfyrddin a Cheredigion yn Login ar Fai 12fed.

Mehefin
2il: Cymundeb dan ofal Mrs Shan Jones - 2.00
9fed: Oedfa - Parchg. Huw George -10.30

**Cydymdeimlo**

Cydymdeimlwn â Llinos a Geraint, Carreglwyd, Llangynin ar farwolaeth mam Geraint, sef Mrs Eileen Jones, Pwlltrap.

**Diolch**

Dymuna Nansi Evans ddiolch yn fawr i'r teulu, perthnasau a ffrindiau am eu dymuniadau da achlysur ei phenblwydd yn 99 oed. Hefyd am yr holl gardiau ac ymweliadau, am y blodau a'r anrhegion . Diolch arbennig i Meirwen am ofalu am y gegin wrth baratoi te. Pleser oedd croesawu pawb.

# HENDYGWYN AR DAF

**Gwellhad**

Dymuniadau gorau am wellhad llwyr i Mrs Jean Parri-Roberts, Preseli yn dilyn ei llawdriniaeth yn ddiweddar.

**Tabernacl**

Mae'r Pasg yn amser arbennig i ni fel Cristnogion a buom yn dathlu'r Pasg unwaith eto eleni.

Ar Gwener y Groglith cawsom oedfa undebol yn Trinity, Llanboidy gyda'r bregeth yn seiliedig ar llen y deml yn rhwygo pan groeshoeliwyd Iesu. Ac yna ar Sul y Pasg y testun oedd y ddau deithiwr yn teithio yn ôl Emaus ar y trydydd dydd.


LLAWN CARIAD

**Detholiad o anrhegion Cymraeg a Saesneg o safon**

Ffôn: 07528 945287 / 07766 418843
Ebost: llawncariad@gmail.com
Facebook: Llawn Cariad
www.llawncariad.co.uk






Bwyd Byd Byd

- Bwydydd a diodydd o Gymru a thu hwnt.
- Bwydydd at ddeiet arbennig
- Bwydydd moethus

- Nwyddau glanhau ac ymolch naturiol
- Nwyddau wedi eu pobi yn y siop.
- Bwydydd cyflawn a chynhwysion bob dydd.
- Gwasanaeth archebu nwyddau a hampers ar gael drwy'r flwyddyn


1 Prospect Place, Crymych, SA41 3QQ
Ffôn: 01239 831537
e.bost: suzannejonesbyb@gmail.com



*Hana Powell yn son am ei thaith i Lesotho.*

Cawsom oedfa arbennig iawn yn ystod y mis diwethaf a hynny ar ôl i un o ieuenctid y capel fynd i wlad Lesotho ar gyfandir Affrica. Hana Powell, un o ieuenctid ffyddlon y capel, fuodd ar daith i Lesotho, gyda'r daith wedi ei threfnu gan Ysgol Bro Myrddin. Oherwydd hyn fe wnaethom benderfynu cael oedfa ar Lesotho o dan arweiniad Hana ac fe wnaeth Hana siarad am ei thaith a dangos nifer o luniau.

Mae'r Clwb Hwyl yn parhau i fynd o nerth i nerth ac yn cwrdd bob prynhawn Gwener rhwng 3.30 a 4.30



Eglwys Annibynnol y Tabernacl, Hendy-gwyn

Oedfa Ddathlu 150 mlynedd
1874 - 2024
Dydd Sul, Mai 19eg, 2024
am 2.00 y prynhawn

Car yr Arglwydd dy Dduw â'th holl galon ac â'th holl enaid ac â'th holl nerth ac â'th holl feddwl, a châr dy gymydog fel ti dy hun.
(Luc 10: 27)

Clawr taflen yr oedfa dathlu 150 mlynedd

Wrth i'r Cardi Bach fynd i'r wasg rydym wrthi yn brysur yn paratoi ar gyfer diwrnod mawr yn ein hanes pan fyddwn yn dathlu 150 mlynedd ers agor y capel. Bydd yr hanes yn llawn a lluniau yn y rhifyn nesaf.

Yn y cyfamser mae croeso cynnes i bawb ymuno gyda ni bob Sul mewn addoliad.

## Hoelion Wyth - Cangen Hendygwyn

Ar y 4ydd o Fai, i orffen y tymor eleni, aeth yr aelodau ar daith ddirgel a drefnwyd, fel arfer, gan Mel Jenkins, ein swyddog adloniant. Teithio i gyfeiriad Ceredigion a chyrraedd Tanygroes, lleoliad yr Amgueddfa Pwer, pryd cawsom groeso arbennig gan y staff.

Sefydlwyd yr amgueddfa yn 2003 ar ôl prynu'r tir yn 2001 ac agorwyd gyda dwy neuadd yn dangos 6 injan yn unig, ond dros y 17 mlynedd yn dilyn, mae hyn wedi cynyddu i 80 o beiriannau ac injans, â'r rhain i gyd yn gweithio. Mae'r safle wedi ei rannu i nifer o adeiladau sy'n cynnwys neuaddau lle gwelir gwahanol beiriannau ac injans - rhai ohonynt yn anferth.



Yn ogystal mae yma gyfanswm o 180 o gyfnewidfeydd ffôn gweithredol, radios, beiciau modur a.y.b. ar y safle. Dros y blynyddoedd mae'r amgueddfa wedi derbyn peiriannau pwysig yn ymwneud â hanes diwydiannol Cymru a Lloegr.



Yr aelodau a ffrindiau yn un o'r neuaddau

FFENESTRI
M.W.J
WINDOWS
FFENESTRI, DRYSAU, YSTAFELLOEDD GWYDR A GWTERI
PVCU
TY GWYN, LLANDISSILIO, CLYNDERWEN
01437 563 806 07774 812587

Caffi Beca
Oriau Agor 9.00yb–2.30yp
dydd Mawrth i ddydd Sadwrn
Efailwen
01994 419735

J. B. OWEN
LLOGI PEIRIANNAU
Golygfa
Llandissilio
Ffôn: 01437 563693
07966 549623

Mae'r gwaith i gyd yn yr amgueddfa yn cael ei wneud gan wirfoddolwyr ac heb eu help a chymorth rhoddwyr preifat a masnachol byddai'r amgueddfa yn dod i ben. Cafwyd amser diddorol iawn yma, a diolchwyd i'r staff gwirfoddol am ddangos rhai o'r peiriannau'n gweithio ac egluro y broses o'u dechrau.

Cwpaned o de yn y caffi cyn mynd ymlaen i dafarn Ffostrasol a chael pryd o fwyd arbennig cyn troi tuag adref. Cyn gadael, diolchodd Claude y cadeirydd i Mel am drefnu'r diwrnod, i'r swyddogion am eu gwaith yn ystod y tymor ac i'r aelodau am eu ffyddlondeb i'r cyfarfodydd. Rydym yn diolch hefyd i Claude am gadeirio dros y tymor.

Edrychwn ymlaen i gwrdd eto ym mis Medi pan fydd croeso cynnes i aelodau newydd i ymuno â'r gangen.

# LOGIN

Dymuna Beti James, Coedllys, ddiolch i bawb am y cardiau, y dymuniadau ar y wê a'r anrhegion a dderbyniwyd ar achlysur ei phenblwydd arbennig. Bydd yr arian a dderbyniwyd yn mynd i Ganolfan Therapi Ocsigen Aberteifi. Diolch i bawb.

**Calfaria**

Oedfaon

Diolch o galon i Mrs Shan Jones a Mrs Annalyn Davies am eu gwasanaeth yn ystod yr wythnosau diwethaf, gwerthfawrogwn hyn yn fawr iawn.

Dyma drefn yr oedfaon ar gyfer yr wythnosau nesaf.
Mehefin
9fed - Hedd Ladd Lewis - Cymun am 10.30
23ain - Euros Jones Evans - Cwrdd am 10.30
Gorffennaf
7fed - Annalyn Davies - Cymun am 2
21ain - Natalie Morgan - Cwrdd am 10.30

**Cydymdeimlo**

Cydymdeimlwn gyda Betty Evans ar farwolaeth ei chyfnither sef Edna Thomas o Eglwyswrw yn ddiweddar.

**Gwellhad**

Dymunwn wellhad llwyr i Tudur Lewis sydd wedi derbyn triniaeth dwys o chemotherapi a radiotherapy yn Ysbyty Singleton, Abertawe dros gyfnod o 6 wythnos yn ddiweddar.

**Ysbyty**

Dymuniadau gorau am well iechyd i Mary Llewellyn, Garth sydd yn yr ysbyty ar hyn o bryd.

**Genedigaeth**

Llongyfarchiadau mawr i Peter a Janet Llewellyn ar ddod yn dadcu a mamgu am yr ail waith. Ganwyd bachgen bach o'r enw Sonny i'w merch Emma a'i phartner Chris. Pob dymuniad da i chi fel teulu.

**Lawnsio llyfr**

Llongyfarchiadau mawr i un o blant yr eglwys sef y Parchedig Euros Jones Evans ar lawnsio llyfr newydd o'r enw Gweddio'r Salmau. Cynhaliwyd y lawnsiad yng Nghapel Providence, Llangadog lle bu Euros yn weinidog am gyfnod. Bu dwy o aelode Calfaria sef Beti a Sian yn cyflwyno eitem gerddorol yn ystod y lawnsiad, diolch iddynt am gynrychioli Calfaria.

## Cyfarfodydd Blynyddol Bedyddwyr Caerfyrddin a Cheredigion

Bu cryn baratoi ar gyfer cyfarfodydd blynyddol y Gymanfa gynhaliwyd yng Nghalfaria ar ddydd Mawrth, Mai 14eg - ceir adroddiad llawn yn y rhifyn nesaf. Paentiwyd a glanhawyd y festri, y capel a'r tai bach a torrwyd porfa y fynwent a'r maes parcio, diolch o galon i bawb fu'n torchi llewys er mwyn sicrhau fod popeth yn gymen.

## Canolfan Ffynnonwen

Cynhaliwyd y cyfarfod blynyddol ar nos Fawrth, 7fed o Fai gyda dros ugain yn bresennol. Trafodwyd y gwellianau i'r adeilad i gwrdd â safonau iechyd a diogelwch. Diolchodd Roy i bawb a wnaeth hi yn flwyddyn gofiadwy i'r ganolfan gan ein bod wedi dathlu hanner canfed penblwydd.

Dechreuwyd drafod a chytuno ar weithgareddau am y flwyddyn nesaf. Y gweithgaredd cyntaf bydd Noson Gwis dan ofal Lyn Burnell ar nos Wener, 14eg o Fehefin am 7 o'r gloch. Dewch i gefnogi. Os bydd hanner cystal nosweth ag oedd yr un olaf bydd yn noson i'w chofio. Tipyn o hwyl a sbri. Cewch ragor o wybodaeth yn y dyfodol agos am y gweithgareddau eraill.

# CWM MILES

Diolch i Elonwy Phillips am ei gwasanaeth yng nghymundeb mis Ebrill.

Hyfryd oedd croesawu y Parch. Euros Jones Evans nôl i Gwm Miles ar ôl cyfnod o afiechyd, ar Sul Mai 5ed.



the LONDON HOUSE butchery
Stryd Sant Ioan
Hendygwyn ar Daf
SA34 0AN
**01994 240705 / 240055**
*Galwch mewn am y dewis gorau*
Dilynwch ni ar Facebook

GBA
GERALD BLAIN CYMDEITHION CYF
Ymgynghorwyr Cynllunio a Phensaerniol
15 Stryd St Ioan, Hendygwyn, Sir Gaerfyrddin, SA34 0AN
01994 240 366
gerald@geraldblainassociates.co.uk
geraldblainassociates.com
@GBAssociates1

RUSSELL THOMAS
GWASANAETH HURIO JCB
PEIRIANT CLODDIO 360°
TRACTOR A THREILAR


Copper Beech, Efailwen,
Clunderwen
Ffôn: 01994 419529
Symudol: 07971 558514

Llongyfarchwyd ef ar ei lyfr "Gweddïo'r Salmau" ffrwyth saith mlynedd o waith. Bu nifer o'r aelodau yn y lansiad ar 3ydd o Fai yng nghapel Providence Llangadog lle y cafwyd oedfa ysbrydoledig. Dymunwn yn dda iddo ac i'w briod Pat. Hyfryd oedd cael presenoldeb Pat, Iestyn (brawd) ac Ann (chwaer yng nghyfraith) yn yr oedfa gymun yng Nghwm Miles. Diolch hefyd i'r rhai a ddaeth o'r ardal i gefnogi'r oedfa.

Trist yw cofnodi marwolaeth Bryan John, Penyberth, Llandysilio (Arfryn gynt). Yr eglwys wedi colli aelod a roddodd wasanaeth oes iddi. Bu ei angladd breifat ar ddydd Mercher, 8fed o Fai yng nghapel Pisgah, Llandysilio. Cydymdeimlwn â Mair, Susan a'r teulu ehangach. Bydd bwlch mawr ar ei ôl.

Trefn yr oedfaon:
Mehefin 16eg. Cymun 2 o'r gloch Arwel Evans.

# BLAENWAUN

**Moriah**

Diolch i'r Parchedig Gareth Ioan a Mr Dafydd Evans am eu gwasanaeth.

Trefn yr oedfaon:
Sul, Mai 19eg: 2 o'r gloch - Arwel Evans
Sul, Mehefin 2il: 10.30 - Parchedig Gareth Ioan
Sul, Mehefin 23ain: Cymun Undebol 2 o'r gloch - Mr Lyndon Lloyd

Dymunwn adferiad buan i Jane Evans, Penddôl, sydd ar hyn o bryd yn Ysbyty Glangwili. Gobeithio y bydd nôl gyda ni yn yr oedfaon pan bydd yr iechyd yn caniatau.

## Cwrdd Chwarter ym Moriah 9fed Mai 2024

Cynhaliwyd cwrdd chwarter Cyfundeb Annibynwyr Gorllewin Caefyrddin ar ddydd Iau, Mai 9fed ar ddiwrnod bendigedig o braf. Llywyddwyd y gynhadledd yn y bore gan y cadeirydd y Parchedig Guto Prys ap Gwynfor a chroesawodd bawb. Cyflwynodd Meinir Eynon ychydig o hanes yr Eglwys a chymerwyd at y rhannau arweiniol gan Tegwen James yn darllen a gweddi gan y Parchedig Gareth Ioan.

Wedi darllen cofnodion y cyfarfod olaf aethpwyd ymlaen at adroddiadau nifer o bwyllgorau gyda sylwadau ac argymhellion yn dilyn. Wedi i'r gynhadledd orffen croesawyd bawb i'r festri am luniaeth ysgafn a mawr bu'r cymdeithasu.

Dechreuodd cyfarfod y prynhawn am 1.30 a chymerwyd at y rhannau arweiniol gan Meryl James, darllen, a gweddi gan y Parchedig Gareth Ioan. Croesawodd y cadeirydd y siaradwr gwadd, Ffion Fielding, rheolwr Prosiect "Hawlio Heddwch" Academi Heddwch Cymru. Soniodd am y "Ddeiseb Heddwch Nain Mamgu", sydd yn awr wedi dod nôl i'r Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth. Pwrpas yr academi yw cofio, dathlu a gwireddu y ddeiseb heddwch a grewyd gan ferched Cymru, a defnyddio hwnnw fel ysbrydolaeth i greu byd heddychlon. Rhoddodd hanes bodolaeth y ddeiseb nôl yn 1924 a sut aeth merched Cymru ati i gasglu cefnogaeth am heddwch byd. Cludwyd y ddeiseb mewn cist i America- Smithsonan, Washington, DC lle ei ddarganfyddwyd yn 2017. Mae yn cynnwys 390,296 o lofnodion merched Cymru. Cafwyd hanes taith y gist i'r Amerig ac yn ôl i Gymru a'r datbygliadau a'r gwaith sydd wedi ei gwneud arni. Mae yn rhyfedd tan yn awr na wyddom ddim am y ddeiseb. Nifer o fobl wedi dargandod bod rhai o'i pethnasau wedi ei llofnodi. Mae arddangosfa ar hyn o bryd yn Amgueddfa Sain Ffagan ac yn y dyfodol bydd yn Hwlffordd. Mae pecynnau gwaith wedi eu creu i ysgolion ac mae angen bod yr hanes yn rhan o hanes Cymru. Cafwyd gan Ffion hefyd sylw ar waith yr Academi Heddwch. Prynhawn addysgiadol a gwerthfawrogiad o aberth merched Cymru wedi ei gyflwyno yn fedrus a diddorol.

Diolchodd Joan Thomas, aelod o gapel Heol Awst i Moriah am eu trefniadau. Gorffennwyd drwy ganu emyn Raymond Williams "Ein gwlad a'n pobol gofiwn nawr, mewn gweddi wrth dy orsedd fawr"

Mae ein diolch yn fawr i nifer o bobl am gymorth i gynnal y cwrdd chwarter.
Rhaid cydnabod gwasanaeth Mrs Elonwy Phillips wnaeth ddewis yr emynau ac am chwarae yr organ. Diolch i Wyn Evans am argraffu y taflenni. Diolch hefyd i ffrindiau ac aelodau yr eglwys am bob cymorth wrth baratoi a chynnal y cwrdd. Nifer wedi gweithio yn galed iawn ac rydym yn gwerthfawrogi pob ymdrech. Esiampl dda o waith tîm.



Y cadeirydd y Parchedig Guto ap Gwynfor yn cyflwyno Ffion Fielding.



Pawb yn mwynhau lluniaeth ar y festri.

# EFAILWEN

## Nebo

Ar Ddydd Sul, 21ain Ebrill, cynhaliodd Ysgol Sul Nebo yr oedfa Bwnc flynyddol. Thema Ysgol Sul y plant a'r bobl ifanc eleni oedd 'Dwylo Iesu sy'n Iacháu' gan rannu storïau o'r Iesu'n iacháu amryw o bobl yn gorfforol ac yn ysbrydol. Roedd Pwnc Ysgol Sul yr oedolion yn canolbwyntio ar Lythyr Iago, pennod 1, adnodau 12-27, sef 'Prawf a Themtasiwn' a 'Gwrando a Gweithredu'r Gair'. Yr holwr gwadd eleni eto oedd Mr Emyr Phillips. Cafwyd holi craff ganddo, yn ei arddull hwyliog ac hamddenol arferol a phawb wedi mwynhau'r trin a'r trafod. Hoffai aelodau'r capel ddiolch yn fawr i Emyr am wneud y Pwnc mor ddiddorol ac i bawb wnaeth gymryd rhan a'r rhai ddaeth i gefnogi.



Yn y llun, o'r chwith i'r dde y mae Iago, Llew, Mabli, Osian, Hannah, Lewis, Efan, Charlie, Celt, Begw ac Efa.

## *Priodas Ddiemwnt*



Llongyfarchiadau gwresog i Iorwerth a Rhiannon Davies, Pencerrig ar ddathlu eu Priodas Ddiemwnt, sef 60 mlynedd, ar y 25ain Ebrill.

Hyfryd yw gweld fod Beryl George o Boncath wedi ymgartrefu bellach gyda'i merch Meinir a'r teulu yn Rhos Fach. Dymunwn pob hapusrwydd iddi yno.

Newyddion da o lawenydd mawr. Mae tecawê newydd yn agor yn Siop y Glandy ganol mis Mai. Paolo Pecoraro sydd yn dod o Sicily fydd yn ciginio bwydydd Eidaleg 12.00 tan 7.00 ar ddydd Llun, Mawrth, Gwener a Sadwrn. Mae'n galw ei hun yn Pasta Boy. Edrychwn ymlaen at ei groesawu atom.

## Hoelion Wyth - Cangen Beca

Llun o gyfarfod mis Ebrill



Geraint James, Awen Teifi yng nghwmni Eurfyl Lewis, Eifion Evans a Ken Thomas

# TRELECH

Llongyfarchiadau mawr i Thomas a Meg a'r plant Rhianna a Jac ar enedigaeth Thomas Gwion yn ddiweddar. Pob dymuniadau da i'r teulu bach.

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Emyr, Treto Isaf sy'n dathlu penblwydd arbennig y mis yma.

Dymuniadau gorau i bawb o'r ardal sy'n cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd ym Meifod ar ddiwedd y mis.

## Plantos Prysur Cylch Meithrin Trelech


Dyma un o'r mudiadau a'r swyddi pwysicaf, sef gofalu ac addysgu plant bach sy'n gadael eu rhieni, efallai am y tro cyntaf. Mae'r profiadau y maent yn eu cael yn yr amgylchedd yma yn mynd i ddylanwadu ar weddill eu haddysg a'u bywydau.

Dyma gipolwg ar y gweithgareddau sydd wedi cael eu paratoi ar gyfer y plantos bach sydd yn mynychu'r Cylch Meithrin a'r Cylch Ti a Fi yn Nhrelech. Maent yn cael profiadau o goginio, plannu, mynd am dro i chwilio am adar, gweithgareddau rhifedd a llythrennedd, chwarae rôl, canu, gwrando ar storïau, cael picnic yn y parc a llu o weithgareddau eraill sy'n datblygu eu sgiliau. Nid yn unig eu bod yn cael y profiadau amhrisiadwy yma, ond yn bwysicach hyd yn oed maent yn gwneud ffrindiau a fydd fel arfer yn ffrindiau oes.

Os ydy'ch plentyn neu'ch ŵyr, eich nai neu blentyn bach yr ydych yn ei adnabod o dan 4 – cofiwch sôn wrthynt am Gylch Meithrin Trelech! Mae wir yn le anhygoel i fod a byddai'n drueni mawr i golli allan ar y cyfle gwych yma.


Am unrhyw fanylion pellach ynglŷn a'r Cylch Meithrin neu'r Cylch Ti a Fi – cysylltwch a'r Cylch.








Mae'r Cylch yn ffodus iawn o rieni gweithgar ac ymroddedig sydd o hyd yn brysur yn trefnu digwyddiadau i godi arian ynghyd a chymuned cefnogol. Rhai o'r digwyddiadau a fu yn ystod y flwyddyn diwethaf yw'r Daith Tractorau, Ffair Nadolig a'r Ras Peli blynyddol. Braf oedd gweld cannoedd o beli yn rhuthro i lawr drwy'r pentref. Noson gymdeithasol hyfryd yn llawn hwyl a sbri i bob oed.




# RHYDYCEISIAID

Ar brynhawn Sul, Mai 5ed cafodd Maria Eleri Lloyd, merch fach Llŷr ac Elin Lloyd, Penlan House, Llangynin ei bedyddio yn y capel - y bedydd cyntaf ers bron i 30 mlynedd. Braf oedd cael cwmni Rhodri a Vicky Lloyd, y plant bach Diana Eleri ac Edward Alun Lloyd, Myrtle, Llanboidy; Haydn Lloyd tadcu a Sian Davies, Ffynnonlwyd; Mr a Mrs Richard Edwards, Llanymddyfri datcu a mamgu; Mrs Marlene Lewis, Hafan Glyd hen-famgu a Mrs Eirwen Lloyd, Cricieth hen-nain ac Angharad a'i phartner, hefyd Dewi Griffiths.

Penblwydd hapus i Haydn Lloyd a fu'n dathu ei benblwydd yn 60 oed mis diwethaf.
...hefyd Dr Rhodri Evans, Maesyrhaf ar ddathlu ei benblwydd yn 30 oed ar Fai 1af.

**Cydymdeimlo**
Cydymdeimlwn yn ddwys â Mrs Marlene Lewis, Hafanglyd ar farwolaeth ei chefnder, sef Mr Roy Evans, Bancyfelin, gynt o Ffynonseiri.
....hefyd â Mr Derek Saer ar farwolaeth ei frawd yng nghyfraith, sef Mr Willie James, Caerfyrddin, gynt o Tegryn.

Llongyfarchiadau i Nansi Evans ar ddathlu ei phenblwydd yn 99 oed mis diwethaf.




Olew Oil
Trefigin
sef. 1985 est. 1985
Y Gwasanaeth sy'n Gwresogi
TANWYDD TŶ
DERV
DISEL FFERM
LIWB OLEW
HEATING OIL
DERV
FARM DIESEL
LUBRICANTS

Warm to our Service
Cwmni annibynnol, teuluol, lleol, Cymraeg
(01239) 881630
www.trefigin.cymru
(01239) 881282


GSJ
G.S.JENKINS
EFAILWEN, CLUNDERWEN
07554 664 316
Pridd wedi sgrinio ar gyfer blodau, llysiau neu lawnt, hefyd gwasanaeth hurio treilar


Gwasanaeth hurio cloddiwr 3 tunnell
Cludiant am ddim hyd at 6 milltir
GWION JENKINS
Ffôn: 01994 419222
Symudol: 07787 826574

# Cinio dathlu Hoelion Wyth Beca yn 40

Cynhaliwyd cinio dathlu Hoelion Wyth Beca yn 40 oed yng Nghaffi Beca, Efailwen ar nos Wener, Ebrill 26ain. Croesawyd pawb ynghyd gan y Cadeirydd Eifion Evans cyn iddo alw ar y Parchedig Ken Thomas i offrymu gras. Cawsom wledd ardderchog fel arfer, wedi ei weini gan staff cwrtais a serchog y caffi.

Bu Eurfyl yn darllen y cyfarchion canlynol wrth y canghennau, cyn galw ar John Jones, Cadeirydd Cymdeithas yr Hoelion Wyth i'n cyfarch. Yn ogystal a'n cyfarch a darllen cerdd er cof am Huw Griffiths (Huw bach) roedd John hefyd wedi llunio soned ac englyn gwych ar gyfer yr achlysur – gwelir y cyfan isod.

Yr awen a ddaeth o'r meini
I'r gwir Gymry sefydlu,
Yr Hoelion fel Cor y Cewri
A Beca yn ei pob yfory.

Dathlu nawr y deugain, y ddawn
O gadw'r Hoelen rhag gwyro,
Yr iaith a diwylliant y fro
Ond am ein cyn Hoelion, rhaid cofio.

*Calfin Griffiths, ar ran Cangen Sion Cwilt*

Mae'n braf fod Cangen Beca
Yn cyrraedd deugain oed,
A braf gweld bod ei hoelion
Mor ifanc ag erioed!

*John y Graig (99 oed), ar ran Cangen Aberporth*

Llongyfarchiadau gwresog i chi ar gyrraedd 40 mlynedd ers sefydlu'r gangen. Dymuniadau gorau i chi, yn swyddogion ac aelodau, gan obeithio yr ewch o nerth i nerth wrth edrych ymlaen ddegawd i ddathlu eto yn 50 oed.

*Wyn Evans, ar ran Cangen Hendy Gwyn*

**Hoelion 8, Cangen Beca yn dathlu'r deugain**

Mae ysbryd Twm Carnabwth yn y tir-
ar ferched Beca ef heb os oedd ben.
A heno yn y caffi, wele'r gwir
wrth weld yr hoelion yn yr Efailwen.
Ei ddisgynyddion yw pob un rwyn siwr,
gwŷr cadarn,penderfynol,bois y gad
sy'n dilyn 'siampl dewrder mawr y gŵr,
a amddiffynnodd ormes a phob brad.
Bydd Eurfyl,Eifion Blaensawd,Vernon Cross
a Lenard John,Ken Mot; mae'n rhestr faith,
yn gwarchod ein diwylliant byw heb os
gan sicrhau parhad i'n hil a'n hiaith.
wrth ddathlu'r ruddem curwn nawr y drwm,
mae hoelion Beca'n fyw yng ngwaddol Twm.

Cael blas ar gymdeithasu – ein hoelion
Llawn hwyl, heno'n dathlu.
Ein golau drwy'r dyddiau du
A'u dawn dros beint, - cyd dynnu.

Cyfarchion penblwydd hapus a dymuniadau gorau am noson gofiadwy iawn wrth ddathlu'r deugain. Ymlaen at yr hanner cant a mwy.

*John Jones, ar ran Cangen Cors Caron*

**Cofio Huw**

HUW - aelod gwerthfawr o gangen Beca. Roedd e wrth ei fodd ymhob Eisteddfod. Ef oedd ceidwad y cledd ac uchafbwynt y noson bob blwyddyn oedd ei weld yn arwain y cor unedig ar y diwedd.

Fe ddaeth a'i wen flynyddol
I'n llonni gyda'i sbri,
Yr hoelen 8 ragoraf
Oedd hwn i'n 'steddfod ni.

Ei egni a'i frwdfrydedd
Lifeiriai dros y lle,
A cheidwad cledd arbennig,-
roedd Huw'n ei seithfed ne'.

Anghofiwch y cadeirio
A'r goron-,rhowch hi lawr.
Uchafbwynt yr eisteddfod
Oedd arwain y cor mawr.

Pwy ddaw yn awr i ddilyn
Ac arwain cor di-glem?
A 'Chalon lan' yn morio
A ninnau heb ein gem.

A thra bydd hoelen loyw'n
Disgleirio is y nen.
Ie,hoelen 8 fydd honno
A Huw fydd arni'n ben.

Hwn oedd ein hysbrydoliaeth
Ein hangor wrth y llyw,
Hwn oedd yr hoelen loywaf,
Ein 'steddfod ni oedd Huw.

*John Jones*

Ar ôl i John siarad, gwnaeth Eifion gyflwyno a chroesawu'r wraig wadd sef Heledd Cynwal o Bethlehem ger Llandeilo. Mae Heledd yn wyneb cyfarwydd iawn ar y teledu – fe'i gwelir yn cyflwyno rhaglenni Cynefin, Cor Cymru, Eisteddfod yr Urdd a'r Eisteddfod Genedlaethol ar S4C.

Mae hi hefyd yn lais cyfarwydd ar y radio, yn cyflwyno rhaglen Bore Cothi o bryd i'w gilydd. Roedd Heledd wedi dod a nifer o eitemau oedd yn meddwl llawer iddi, yn cynnwys lamp glowr, (glowr oedd ei thadcu) llun teuluol, llun cartref y teulu yng Nghw Cynwal, ynghyd a llawer o eitemau arall a bu'n esbonio arwyddocad y cyfan mewn ffordd gartrefol a hwylus tu hwnt.

Cawsom araith wych, yn llawn hiwmor ganddi ac roedd hi'n amlwg bod ei theulu yn bwysig iawn ac yn meddwl y byd iddi. Diolchodd Eifion i Heledd ac i John am noson wych, fydd yn aros yn hir yn y cof.

# Cynllun Gerddi Cenedlaethol

Mae bob amser yn fy syfrdanu faint sydd erioed wedi clywed am y Cynllun Gerddi Cenedlaethol! Rydym yn galluogi aelodau'r cyhoedd i agor eu gerddi er budd elusennau ac rydym yn codi miliynau ar gyfer elusennau iechyd yn bennaf: £3.4M y llynedd yn unig.

Mae gerddi Cymru wedi agor gyda'r Cynllun Gerddi Cenedlaethol (NGS) ers iddo ddechrau yn 1927 i helpu i ariannu nyrsys. Heddiw mae dros 3,500 o erddi preifat yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn agor gyda'r NGS. Mae'r arian a gaiff ei godi yn darparu cymorth hollbwysig i elusennau nyrsio ac iechyd. Mae ein ffocws ar fentrau iechyd yn cynnwys cyllid ar gyfer gerddi sy'n gysylltiedig ag unedau anafiadau asgwrn cefn y GIG (e.e.yng Nghaerdydd) a chanolfannau cymorth canser Maggie's (e.e. yn Abertawe), yn ogystal â chymorth i ofalwyr, hosbisau a phrentisiaethau yng Ngardd Fotaneg Genedlaethol Cymru.

Efallai eich bod wedi gweld arwydd melyn yn dweud "Gardd ar agor er budd Elusennau" ar ochr yr heol. Eleni mae gan Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin 28 o erddi hardd i chi eu harchwilio a'u mwynhau, gan gynnwys tair o rai newydd nas gwelwyd erioed o'r blaen. Fe'ch croesewir gan berchnogion/cynorthwywyr y gerddi, ac yn y rhan fwyaf o achosion mae cacennau cartref blasus ar gael, a hyd yn oed planhigion ar werth. Ewch i ngs.org.uk ar gyfer yr holl ddyddiadau a lleoedd ar gyfer diwrnodau agored ac edrychwch ar y tab "Trwy drefniant" ar gyfer llawer mwy o erddi nad ydynt yn cynnal diwrnodau agored: mae'n cymryd galwad ffôn yn unig.

Mae ein llyfrynnau melyn lleol i'w cael mewn mannau gwerthu fel canolfannau garddio, meithrinfeydd, canolfannau croeso, llyfrgelloedd, atyniadau ymwelwyr ac ati.

A oes gennych ddiddordeb yn y cyfryngau cymdeithasol? Dewch o hyd i ni ar y cyfryngau cymdeithasol ar www.facebook.com/CarmsandPembsNGS neu ar Instagram. Eleni, beth am fynd allan i ymbleseru yn eich synhwyrau. Dewch o hyd i heddwch a harddwch mewn gardd.

*Liz ONeill*



Gardd Norchard



Gardd Llwyngarreg



Gardd Pentresite

PEIRIANNEG
MARC JAMES CYF
Marc James Engineering Ltd
GWAITH PEIRIANYDDOL AMAETHYDDOL
GWASANAETH • ATGYWERIO

Y Gweithdy
Llwyncelyn
Clunderwen
SA66 7HL

01437 563930
07831 149237
marcjamesengineering@btconnect.com

GWASANAETH CEIR HENDYGWYN
Canolfan atgyweirio ceir

Gwerthu Teiars, Batris, Egsosts ayyb
**Dai James - Steven Owens**
Uned 9, Ystad Ddiwydiannol Gerddi'r Ffynnon, Hendygwyn ar Daf
01994 240230 / 07972 725193

Premier
MAELFA
Siop y Pentref
Clunderwen
Nwyddau o bob math am brisiau cystadleuol
01437 563200

Y CARDI BACH, BACH
Papur Bro Dyffryn Taf
CARIAD O BETH CARDI BACH

# YSGOL BECA

**Disgyblion newydd**
Croeso mawr i ddisgyblion newydd Ysgol Beca. Yn ymuno â dosbarth Carn Gyfrwy mae Alfie, Seb a Kaleo. Mae'r disgyblion wedi ymgartrefi yn barod ac yn mwynhau gwneud ffrindiau newydd yn Ysgol Beca.

**Celf, Dylunio a Thechnoleg yr Urdd**
Llongyfarchiadau mawr i aelod clwb Miss Phillips am gydweithio ar ddod yn ail yng nghystadleuaeth celf i flwyddyn 5 a 6 yng nghystadleuaeth Celf, Dylunio a Thechnoleg yr Urdd. Y thema eleni oedd 'Egni'. Da iawn chi!

**Diwrnod Awtistiaeth**
Dathlodd yr ysgol 'Diwrnod Derbyn Awtistiaeth' ar y 16eg o Ebrill. Gwisgodd y disgyblion mewn lliwiau'r enfys a chyfrannodd cymaint â phosib at yr achos teilwng hwn. Roedd yn ddiwrnod hyfryd gyda phawb yn ymdrechu'n fawr i godi ymwybyddiaeth. Da iawn chi blant!





Ar y 8fed o Fai buodd aelodau o'r RNLI yn ymweld â disgyblion yr ysgol gyfan. Cafodd y disgyblion gyflwyniad arbennig am bwysigrwydd diogelwch ar y traeth wrth i'r tywydd gynhesu. Dysgodd pawb lawer o wybodaeth newydd a diddorol. Diolch yn fawr i chi am eich ymweliad.

# YSGOL GRIFFITH JONES

**Chwaraeon**
Bu bechgyn a merched hŷn yr Ysgol yn cymryd rhan yng nghystadlaethau pêl droed a rygbi'r Urdd. Llongyfarchiadau gwresog i bawb am gystadlu mor frwd!

Mae dosbarthiadau Blynyddoedd 3 i 6 wedi bod yn derbyn sesiynau hyfforddi wythnosol gyda Chriced Cymru ers dechrau tymor yr Haf. Diolch yn fawr iawn i Sarah am eu gwaith caled yn datblygu sgiliau ein cricedwyr ifanc.



Llongyfarchiadau i Corey Rees a ddaeth yn gyntaf yng nghystadleuaeth Gymnasteg i blant o dros Gymru gyfan.

**Eisteddfod yr Urdd**
Cafodd nifer o'n disgyblion lwyddiant yn nghystadlaethau Celf a Chrefft yr Urdd. Dyma'r canlyniadau:-
Graffeg Cyfriadurol Bl.2 ac Iau: Noah Morris Brown - 2il, Ella Topham – 3ydd.
Graffeg Cyfrifiadurol Bl.3 a 4: Owain East – 3ydd.
Graffeg Cyfrifiadurol Bl.5 a 6: Jamila Ali – 2il.
Ffotograffiaeth: Cyfres o luniau lliw Bl2 ac Iau: Charlie Durbridge – 3ydd.
Ffotograffiaeth: Cyfres o luniau lliw Bl3 a 4: Gwen Gibbon 1af.
Argraffu Bl.5 a 6: Jessica Mason 1af.
Creu Tecstiliau Bl.2 ac Iau: Thomas Durbridge 2il.
Creu Tecstiliau Bl.3 a 4: Sonny Evans 2il.

Pyped Bl.2 ac Iau: Charlie Durbridge 1af.
Pyped Bl.3 a 4: Sonny Evans 1af.
Gwaith 3D Bl.3 a 4: Sonny Evans 1af.
Gwaith 3D Bl.6 ac Iau (grŵp): Thomas a Charlie Durbridge
Llongyfarchiadau anferthol i bawb!

Pob lwc i Elijah Diong-Jenner a fydd yn cystadlu yn yr unawd dan 8ydd ac Ella Cooper a fydd yn chwarae'r ffidil yn yr unawd llinynnol yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Meifod, ar ddiwedd y mis.



Plant gyda'u tystysgrifau

**Diwrnod Masnach Deg**
Bu'r Pwyllgor Masnach Deg yn brysur yn trefnu diwrnod arbennig i godi ymwybyddiaeth disgyblion a rhieni o bwysigrwydd prynu nwyddau Masnach Deg. Daeth y disgyblion i'r ysgol yn gwisgo lliwiau'r mudiad a threfnwyd cystadleuaeth ffotograffiaeth ar y thema. Bu'r pwyllgor hefyd yn coginio cacennau bach gan ddefnyddio cynhwysion Masnach Deg i'w gwerthu ar ddiwedd y dydd.

**Ymwelwyr**
Daeth criw o Achubwyr Bywyd 'Meet the Lifeguards' lleol i gynnal sesiwn hyfforddi gyda'r disgyblion er mwyn eu hatgoffa am bwysigrwydd dilyn rheolau diogelwch ar lan y môr.
Diolch o galon i Bethan o Kerbcraft sydd wedi bod yn dod atom i gefnogi disgyblion Blwyddyn 1 i gwblhau sesiynau diogelwch y ffordd.

**Siarter Iaith**




Bu criw o blant o ddosbarth Myrddin yn cystadlu yn y 'Cwis Dim Clem' i ddysgwyr a drefnwyd gan Menter Iaith Sir Gâr. Llongyfarchiadau iddynt am ymdrech arbennig.

# YSGOL BRO BRYNACH

**Twrnameintiau Pêl Droed**



Gwnaeth timoedd pêl-droed Cymysg a Merched Bl.5 a 6 berfformio'n arbennig o dda yn nhwrnamentau pêl-droed yr Urdd.

**Celf a Chrefft Rhanbarth yr Urdd**
Gwelwyd nifer helaeth o ddarnau celf yn yr Eisteddfod Rhanbarth eleni. Llongyfarchiadau i'r holl ddisgyblion a wnaeth gystadlu a dangos eu doniau celfyddydol a chreadigol. Aeth y darnau celf buddugol ymlaen i'r genedlaethol. Gweler isod y canlyniadau;

**1af**
Creadigol 2D ADY – Maria Phillips
Gwaith 3D ADY – Maria Phillips
Gemwaith Bl.6 ac Iau (grŵp) – Y Tywydd – Ripley Leverington, Amelia Gallie a Amelia Churchill
Pyped Bl.6 ac iau (grŵp) – Grŵp y Llew a Llewpart – Caleb Wiggans a Dion Anthony
Tecstiliau Creadigol Bl.5 a 6 – Toby Armstrong
Tecstiliau Creadigol (grŵp) – Ripley Leverington a Hannah Cowley

**2il**
Pyped Bl.6 ac iau (grŵp) – Grŵp y Sebra – Ellis Wiggans a Peter Kuhnell
Tecstiliau Creadigol Bl.5 a 6 – Lois Murray
Tecstiliau Creadigol (grŵp) – Carla Golding, Poppy Davies, Mitchell Mellor, Tilia Mitchell, Willow Coope, Ally Morgan a Betsan Dent

**3ydd**
Pyped Bl.6 ac iau (grŵp) – Zeus Duw Awyr a Tharannau – Ché Young, Harvey Carey a Barnaby Cutler
Tecstiliau Creadigol Bl.5 a 6 – Hannah Cowley
Tecstiliau Creadigol (grŵp) – Jac Owen a Barnaby Cutler
Gwaith 3D Bl.6 ac iau (grŵp) – Argae Hydro – Leo Phillips a Mitchell Mellor

**Ymweliad gan y Parchedig Guto Llywelyn**
Braf oedd cael croesawu'r Parchedig Guto Llywelyn i gynnal gwasanaeth i'r disgyblion unwaith eto y mis yma. Adroddwyd dwy stori o'r beibl a oedd yn ein atgoffa ni i ymddiried yn Nuw.

**Cyngerdd yn Eglwys Sant Brynach**
Ar nos Wener y 3ydd o Fai cafwyd gwahoddiad i gymryd

rhan yng nghyngerdd Eglwys Sant Brynach. Braf oedd cael canu tair eitem i helpu godi arian i'r Eglwys.



Plant fu'n canu yn yr eglwys

**Ymweliad diogelwch RNLI**



Bum yn ffodus iawn i dderbyn ymweliad o'r RNLI. Dysgon ni am bwysigrwydd cadw'n ddiogel ar lan y môr ac ystyr y baneri. Profiad gwerthfawr iawn i bawb am ddiogelwch ar y traeth.

# YSGOL LLYS HYWEL

**Diolch Davies Builders**



Diolch i Davies Builders, Hendygwyn am eu rhodd caredig i'n helpu ni greu ardal allanol newydd.

**Trip i flynyddoedd 3-6**

Mae disgyblion dosbarth Onnen, Collen a Helygen wedi bod yn mwynhau dysgu am grefydd Islamaidd ag ymweld â Mosg Abertawe - am brofiad arbennig!



Ymweld â Mosg Abertawe

**Diogelwch tận**

Diolch i Wasanaeth Tân ac Achub CGC / MAWW Fire and Rescue am sgwrsio â ni am ddiogelwch tân.

**Bumbles of Honeywood**

Daeth 'The Bumbles of Honeywood' i gynnal sesiwn efo'n disgyblion blynyddoedd 3 a 4. Mae'r cwmni yn cynnal gweithdai i annog meddylfryd entrepreneuraidd. Diolch yn fawr iddynt am yr ymweliad a buddiodd y disgyblion yn fawr o'r profiad.

**Pệl Droed Urdd Merched**

Da iawn i'r disgyblion am gynrhychioli'r ysgol yn wych yng nghystadleuaeth pêldroed merched Gorllewin Myrddin Yr Urdd yn ddiweddar.


H THOMAS a'i FAB
Peiriannydd Amaethyddol



Partiau, Gwasanaeth
Tractorau Newydd ac Ail-law
Ffôn: 01994 240349 / 240770

D. E. PHILLIPS
a'i Feibion
TANYBRYN, GLANDWR
Trydanwyr
Siop Radio a Theledu
CRYMYCH
Setiau ar werth
Ffôn: 01994 419361 / 01239 831589

Y GARREG LWYD
Heol Salem, Sancler
Cartref Oddi Cartref



Ffoniwch y rheolwraig
01994 230855

### Cwis Dim Clem
Llongyfarchiadau i dim Cwis Dim Clem, ail iaith yr Ysgol â berfformiodd yn dda yn rownd cyntaf y cwis.

### Celf a chrefft yr Urdd
Llongyfarchiadau i Amelia Malpeli Thomas am ddod yn ail yng nghystadleuaeth Cynllunio Crys-T ac i Polly McNamara am ddod yn drydydd yng nghystadleuaeth llun 2D blwyddyn 5 a 6.

### Cynrychiolaeth Pêl droed a Rygbi'r Sir




Braf yw gweld disgybl Llys Hywel yn cynrychioli'r ysgol wrth fod yn rhan o dîm pêl droed Ysgolion Caerfyrddin ac yn cael ei ddewis i dîm 7 pob ochr dalgylch Caerfyrddin.

### Diogelwch tu fas yr Ysgol




Diolch i ddisgyblion Llys Hywel am helpu i ledu'r neges i gadw'r ardal igam ogam tu fas yr Ysgol yn glir.

# YSGOL HAFODWENOG

### Pel-droed yr Urdd



Llongyfarchiadau i'r disgyblion yma am gystadlu yng nghystadleuaeth pel-droed cymysg gyda'r Urdd. Da iawn chi.

### Ci Therapi Sir Gâr



Daeth Bruce o Carmarthenshire Therapy Dogs i'n gweld yn yr ysgol. Disgyblion wedi mwynhau yn ei gwmni.

### Sbectwm
Diolch i Sbectrwm am ddod i'r ysgol a rhoi gwers i ddisgyblion blwyddyn 5 a 6.

### Pel-droed



Llongyfarchiadau i ferched blwyddyn 5 a 6 am gystadlu yng nghystadleuaeth pel-droed yr Urdd. Da iawn chi.

**G. & J.M. Phillips**
CONTRACTWYR TRYDANOL
Caerdaf, Spring Gardens,
Hendygwyn ar Daf
SA34 0HE
**Ffôn: 01994 241015**
**Symudol: 07771 601412**
NICEIC
Contractwr Cydnabyddedyg

**DERI PAGE**
**CIGYDD**

Cig o'r ansawdd gorau
Heol y Pentre
San Clêr
Ffôn: 01994 230062
*Diolch am eich cefnogaeth*

**GT TYRES**

Arbenigwr mewn
Teiars Ceir,
Masnachol
ac Amaethyddol
**Brooklyn Garage**
**Heol y Castell**
**Aberteifi. SA43 3AE**
☎: **01239 612814 / 07765 034705**

**Cyngerdd Carwyn Ellis**

Bu'r côr yn ffodus i ganu yng nghyngerdd Carwyn Ellis yng Nghapel y Graig. Diolch am y gwahoddiad.

**Casglu sbwriel**




Diolch i aelodau’r Cyngor Eco a disgyblion Rhos Fach am fynd o amgylch y pentref i gasglu sbwriel.

**Cyngerdd Doniau Hafodwenog**

Cynhelir cyngerdd doniau ysgol Hafodwenog yn neuadd Talog ar 20fed o Fai am 7yh. Byddwn yn dangos holl eitemau’r Eisteddfod, Mynediad yn £5 (uwchradd £2). Croeso cynnes i bawb.

## Cymdeithas Waldo Williams

Yng nghapel Pisga, Llandysilio ar nos Wener, 10fed Mai cynhaliwyd cyngerdd o dan nawdd Cymdeithas Waldo Williams. Daeth cynulleidfa luosog ynghŷd i fwynhau perfformiadau gan unigolion a chorau talentog. Roedd Siôn Jenkins wedi dychwelyd adref i’w bentref genedigol i lefaru’r gerdd ‘Preseli’ yn y Gymraeg a’r Saesneg, yn ogystal â rhai o’i gerddi ei hunan.

Roedd y tenor Elis Jones a’r bariton Siôn Eilir Roberts wedi teithio o Ogledd Cymru gyda’i cyfeilydd Eirian Owen a mwynhawyd eitemau unigol a deuawdau ganddynt. O dan hyfforddiant Eleri Roberts gyda Marian O’Toole yn cyfeilio cafwyd perfformiadau grymus gan Barti’r Gromlech o gerddi Waldo, ‘Efengyl Tangnefedd’ a ‘Hon’ gan T.H Parry Williams.

Uchafbwynt y noson oedd perfformiad Côr Crymych ar ei newydd wedd, o dan arweiniad Wendy Henderson a’r cyfeilydd Elin Ennis. Mae’r côr wedi bod wrthi’n ddygn ers misoedd yn paratoi ar gyfer y noson a nhw gafodd yr anrhydedd o berfformio ‘Preseli’, y geiriau gan Waldo Williams a’r gerddoriaeth gan Eric Jones am y tro cyntaf. Comisiynwyd y cerddor profiadol o Bontarddulais i gyfansoddi cerddoriaeth ar gyfer y gerdd hon yn dilyn poblogrwydd ei osodiad o’r gerdd ‘Y Tangnefeddwyr’. Roedd e a’i briod yn bresennol ar y noson. Roedd llwyddiant y noson heb os yn y trefnu manwl a wnaethpwyd gan ysgrifennydd gweithgar Cymdeithas Waldo sef Anna Williams.



Côr Crymych



Parti’r Gromlech



Sion Jenkins



Sion Eilir Roberts
ac Elis Jones

Y digwyddiadau nesaf gan Gymdeithas Waldo fydd cyfres o deithiau cerdded byr o gwmpas llefydd sydd yn gysylltiedig â’r bardd, y gyntaf yn Llandysilio ar ddydd Sadwrn, 25ain Mai, cychwyn o gapel Pisga o dan arweiniad Teifryn Williams a Wyn Owens. Bydd yr ail ar 29ain Mehefin, cychwyn o gapel Millin ger pentref Rhos ac ymweld â’r Dderwen Gam o dan arweiniad Hefin Wyn. A’r drydedd daith yng Nghas-mael ar 27ain Gorffennaf gan gychwyn o ysgol Cas-mael o dan arweiniad Alun Ifans. Bydd pob taith yn cychwyn am 11.00 o’r gloch a bydd croeso i bawb.

*Llinos Penfold*



**ARBENIGWR LAND ROVER ANNIBYNNOL**

**MOT**

**•CEIR •BEICIAU MODUR •FANIAU •4x4**

**Offer Diagnostig Diweddaraf**



**Arbennigwyr Land Rover yn San Clêr, Sir Gaerfyrddin**

Yr ydym yn arbenigo mewn gwasanaeth, rhannau spâr, diagnosis ac atgyweiro pob model o Land Rover.

Gyda dros 20 mlynedd o brofiad yn gwasanaethu Land Rover, yn cyflogi tîm gwybodus sydd yn gwneud yn siwr fod eich Land Rover chi yn mynd cystal â newydd.

**•RHANNAU SPAR •GWASANAETH •TEIARS •BATRIS•WELDIO •TRACIO PEDAIR OLWYN •TYMHERU AER**

**Ffôn: 01994 232960 • Symudol: 07968 868313**

Garej Blaenwaun cyf., Heol yr Orsaf, San Clêr. SA33 4BP


# BINGO

## Neuadd Llanwinio

## Nos Wener, Mehefin 28ain am 7.30

Croeso cynnes i bawb

Dan nawdd Pwyllgor Adloniant Llanwinio



Jones Login

Teithiau o Safon
*Quality Coach Travel*

**Login**
**Hendygwyn**
**Sir Gaerfyrddin**
**SA34 0UX**
**Ffôn: 01437 563277**
**www.joneslogin.co.uk**





| | | Nifer y dyddiau |
|---|---|---|
| **Mehefin 2024** | | |
| Llun 10 | **Gwesty Warner - Holme Lacy** | 5* |
| Mer 19 | **Diwrnod y Merched, Royal Ascot** | 3 |
| **Gorffennaf 2024** | | |
| Sad 6 | Bannau Brycheiniog, Canolfan Arddio Three Cocks A Thaith ar Cwch Dragonfly Aberhonddu | 1 |
| Iau 25 | **Castell Highclere (Downton Abbey) a Cheltenham** | 2 |
| Sad 27 | *Sioe Gerdd - Wizard of Oz, CMC* a Bae Caerdydd | 1 |
| Maw 30 | **Llandudno** | 5* |
| **Awst 2024** | | |
| Llun 5, Mer 7 a Gwe 9 | Eisteddfod Genedlaethol | 1 |
| Mer 28 | **Gerddi Highgrove a'r Cotswolds** | 2 |
| **Medi 2024** | | |
| Llun 2 | **'All Features Great & Smal** | 5* |
| Sad 7 | *Grease, CMC* a Bae Caerdydd | 1 |
| Llun 9 | **'Picture Perfect Suffolk'** | 5* |
| Sad 14 | Canolfan Treftadaeth Gwyr | 1 |
| Llun 16 | **'Sussex Bygone Years' a'r 'Repair Shop'** | 5* |
| Llun 23 | **Deintyddion Northumbria** | 5* |

| | | Nifer y dyddiau |
|---|---|---|
| **Hydref 2024** | | |
| Sad 5 | **ABBA Voyage a Windsor** (Un sedd ar ôl!) | 2 |
| Llun 7 | **Gwesty Warner - Sinah Warren** | 5* |
| Llun 21 | **Southport, Ardal y Llynnoed a Lerpwl** | 5* |
| Iau 31 | *Jane McDonald, Arena Utilita, Caerdydd* | 1 |
| **Tachwedd 2024** | | |
| Sad 9 | *Sioe Gerrd Wicked, CMC* a Bae Caerdydd | 2 |
| Gwe 22 | **Marchnad Nadolig Manceinion** | 3 |
| Sad 30 | **Gwyl Olau Longeat a Briste** | 2 |
| **Rhagfyr 2024** | | |
| Sad 7 | Canolfan Arddio Y'r Hen Rheiffordd (Siopa Nadolig) | 1 |
| Sad 14 | *Sioe Gerdd Hamilton, CMC* a Bae Caerdydd | 1 |
| Llun 23 | **Gwyliau Nadolig - Gwesty Warner Holme Lacy** | 5* |
| **Chwefror 2025** | | |
| Llun 10 | **Gwesty Warner - Neuadd Alvaston, Swydd Caer** | 5* |
| **Mawrth 2025** | | |
| Sad 8 | **ABBA Voyage a Windsor** | 2 |
| **Ebrill 2025** | | |
| Sad 19 | *Sioe Gerdd Chitty Chitty Bang Bang, CMC* | 1 |

**Pob ymadawiad o 4 diwrnod + yn cynnwys gwasanaeth drws i ddrws - Amodau'n berthnasol!**

Menter Gorllewin Sir Gâr

**Gŵyl Canol Dre:**
Bydd ein gŵyl Gymraeg yng Nghaerfyrddin, Gŵyl Canol Dre yn ei ôl eleni eto! Cynhelir yr ŵyl ym Mharc Myrddin, Caerfyrddin ar y 6ed o Orffennaf! Bydd yr ŵyl yn rhedeg o 11 y bore tan 9 yr hwyr a bydd mynediad am ddim i bawb. Eleni, cyhoeddwyd gwledd o gerddoriaeth fyw o'r prif lwyfan. Dewch i weld a chlywed Eden, Bwncath, Tara Bandito, Dros Dro, Fflur Dafydd, Mynadd, Dadleoli, Côr Seingar, Alys a'r Tri Gŵr Noeth a'r Sesiwn Werin. Yn ogystal bydd stondinau, celf, adloniant, bwyd a diod, llenyddiaeth, gweithdai a llawer mwy – rhywbeth at ddant pawb! Edrychwn ymlaen i'ch gweld chi yno!

**Gig Canol Dre:**
Yn yr hwyr, yn dilyn yr ŵyl cynhelir Gig Canol Dre yn Cwrw, Stryd y Brenin, Caerfyrddin. Yno bydd Eadyth a Dadleoli'n diddanu. Bydd mynediad i'r Gig yn costio £5 wrth y drws, gyda chroeso cynnes i bawb.

**Gŵyl Fach Newy':**
Am 11am ar ddydd Sadwrn, 8fed o Fehefin byddwn yn cynnal Gŵyl Fach Newy' ar Gae Chwarae Brenin Siôr V yng Nghastell Newydd Emlyn. Bydd Mabolgampau, Amlsgiliau dan arweiniad O T Coaching, Gemau Traddodiadol, Peintio Wynebau, Stori gyda Magi Ann a llawer mwy! Bydd mynediad am ddim i bawb. Dewch i fwynhau gyda ni a dewch â phicnic!

**Ras Bryndioddef:**
Mae Ras Bryndioddef yn ôl! Am 6pm ar nos Fawrth, 18fed o Fehefin 2024 bydd cyfle i blant ac oedolion i redeg ras enwog Bryndioddef. Fedrwch chi gyrraedd reit i dop Bryndioddef a rhedeg yn ôl lawr? Mae trefniadau mewn lle i gau'r heol yn ystod y digwyddiad felly bydd yn hollol ddiogel i blant ac oedolion i redeg a mwynhau'r digwyddiad. Gofynnir i bawb ddod i Glwb Rygbi Castell Newydd Emlyn i gofrestru ar gyfer y ras rhwng 5 a 5.45 pm. Rhaid cofrestru cyn rhedeg. Bydd y ras yn £3 yr un i gystadlu. Gofynnir yn garedig i oedolyn i redeg gyda phlant blwyddyn 1 ac iau.

**Y Cwis Mawr:**
Fel rhan o ddathliadau Gŵyl Fach Newy' cynhelir rownd arbennig o'r Cwis Mawr yn Y Sgwâr, Castell Newydd Emlyn am 7pm ar nos Iau'r 13eg o Fehefin. Mae croeso i siaradwyr newydd a rhugl i greu timau er mwyn cystadlu. Bydd y tîm buddugol yn mynd drwyddo i'r rownd derfynol a gynhelir yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mhontypridd ar ddydd Sadwrn, 3ydd o Awst. Bydd tocyn am ddim i bob aelod o'r tîm buddugol. Am fwy o fanylion cysylltwch ar huwevans@mgsg.cymru

**Gwirfoddolwyr:**
Mae cyfleoedd arbennig gan y Fenter i wirfoddolwyr. Os ydych chi am ddatblygu sgiliau newydd, am gyfrannu i'ch cymuned leol neu'n awyddus i gael profiadau newydd, gwerthfawr fydd yn edrych yn dda ar eich CV, yna cysylltwch gyda ni! Dros y misoedd nesaf bydd cyfleoedd i wirfoddoli yn ein gweithgareddau amrywiol. Am fwy o fanylion cysylltwch ar gwawr@mgsg.cymru

**Cynllun Profi:**
Mae criw Cynllun Profi'n parhau i weithio'n ddiwyd. Rydym ar hyn o bryd yn cynnig sesiynau i greu a diweddaru Proffil Personol a CV ac i ddatblygu a gwella Sgiliau Cyfweliad. Mae gweithio ar yr unedau yma hefyd yn caniatáu i chi ennill credydau a hyd yn oed cymhwyster Agored Cymru, gall gael ei ychwanegu at eich CV! Os hoffech drefnu sesiynau'n eich ardal leol chi yna cysylltwch ar alma@mgsg.cymru

Rydym yn parhau i ddatblygu ein gwefan www.profi.cymru sy'n llawn cyngor ac adnoddau defnyddiol a gwerthfawr ar gyfer datblygu sgiliau byd gwaith. Ewch draw i'r wefan a gwelwch ein bod wedi ychwanegu tudalen newydd 'Cyfleoedd' yn ddiweddar. Rydym hefyd yn parhau i ddatblygu cynnwys newydd a chyffrous. Dilynwch ni ar y cyfryngau cymdeithasol i gael y diweddaraf am @CynllunProfi

**Sesiynau stori:**
Canu, stori, cymdeithasu, ymlacio a mwynhau! Mae ein sesiynau stori yng Nghaerfyrddin ac yn Sanclêr yn parhau bob pythefnos. Ymunwch gyda ni yn y sesiynau stori yma. Cysylltwch gyda gwyneth@mgsg.cymru i gofrestru neu am wybodaeth pellach.

**Clybiau Drama:**
Mae'r Fenter, Theatr Genedlaethol Cymru a'r Egin yn cynnig dau glwb drama i blant yr ardal, Clwb Joio Drama ar gyfer blynyddoedd 1-3 ar nos Fercher o 5-5.45pm ac i flynyddoedd 4-6 o 6-7pm. Mae'r clybiau yn cael eu cynnal yn Yr Egin, Caerfyrddin. Cyfle i blant ddysgu sgiliau, magu hyder a mwynhau. I gofrestru, cysylltwch ar mari@mgsg.cymru

**Siaradwyr Newydd:**
Dewch i ymuno gyda'n sesiynau siarad ni! Mae croeso i siaradwyr newydd a rhugl ymhob un.
Mae Coffi a Chlonc yn gyfle i ddod ynghyd i sgwrsio a chymdeithasu dros baned bob bore dydd Iau am 10.30yb ar Zoom. Mae'r weithgaredd hon yn addas ar gyfer dysgwyr neu siaradwyr rhugl. I dderbyn y linc cysylltwch gydag ymholiad@mgsg.cymru

Mae'r Fenter yn cyd-drefnu sesiynau Paned a Sgwrs yng Nghaffi'r Atom, bob dydd Mawrth o 10-11yb. Cyfle i sgwrsio a chymdeithasu dros baned.

**Cyfryngau Cymdeithasol:**
Am y diweddaraf, ewch i'n cyfryngau cymdeithasol:
Facebook - Menter Gorllewin Sir Gar
X (Trydar) - @MenterGSG
Instagram - @MenterGSG
E-bost - ymholiad@mgsg.cymru neu am fwy o wybodaeth ar sut i gyrraedd y platfformau yma cysylltwch â ni ar y ffôn: 01239 712934.



# Bysiau Cwm Taf

*Gwyliau o safon am brisiau cystadleuol*



## Teithiau 2024

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gwener 31ain Mai | (Newydd) NORWY - TELEMARK a'r FJORDS (Newydd) | £1,995 | 12 Diwrnod |
| Sul 2ail Mehefin | SIR GAER HYFRYD a PHENRHYN y WIRRAL | £535 | 5 Diwrnod |
| Sul 12fed Mehefin | CAINT HANESYDDOL - HISTORIC KENT | £495 | 5 Diwrnod |
| Mercher 12fed Mehefin | LLANDUDNO a TREN BACH YR WYDDFA. | £555 | 5 Diwrnod |
| Sul 16eg Mehefin | CRWYDRO CONNEMARA a'r ARDAL YN IWERDDON | £755 | 7 Diwrnod |
| Sul 23ain Mehefin | EASTBOURNE a Rheilffordd y "BLUEBELL" | £610 | 7 Diwrnod |
| Llun 1af Gorffennaf | ?????? TAITH DDIRGEL GYFRINACHOL yr HAF ??????? | £510 | 5 Diwrnod |
| Gwener 1af Mawrth | Ymunwch â Clive a'I Ffrindie i ddathlu Gwyl Dewi yn Caernarfon | £250 | 3 Diwrnod |
| Sul 7fed Gorffennaf | YNYS WYTH - Isle of Wight. Gwesty Trouville SANDOWN | £575 | 6 Diwrnod |
| Gwe 12fed Gorffennaf | Arfordir Gogleddol yr ALBAN a Llwybr y "ROUTE 500" | £1,100 | 8 Diwrnod |
| Iau 18fed Gorffennaf | GWYLIAU BYR yn y "COTSWOLDS" | £295 | 3 Diwrnod |
| Llun 22ain Gorffennaf | HARROGATE a'r YORKSHIRE DALES | £535 | 5 Diwrnod |
| Llun29ain Gorffennaf | Ardal SHAKESPEARE - Stratford upon Avon a Kenilworth | £535 | 5 Diwrnod |
| Sul 4ydd Awst | Teithiau cychod a Rheilffyrdd Ager yn ARDAL Y LLYNNOEDD | £620 | 5 Diwrnod |
| Sadwrn 12fed Awst | Dewch I ddarganfod golygfeydd godidog AWSTRIA | £1,100 | 8 Diwrnod |
| Llun 12fed Awst | HAMPSHIRE ISLAND a thaith ar Hovercraft i Ynys Wyth | £495 | 5 Diwrnod |
| Mawrth 20fed Awst | Gwyliau Byr yn COLEFORD, Cas Gwent a "Forest of Dean" | £395 | 4 Diwrnod |
| Mercher 21ain Awst | SIOE AGER a Hên BEIRIANNAU DORSET, BOURNEMOUTH | £425 | 4 Diwrnod |
| Sul 25ain Awst | DEVONSHIRE a ILFRACOMBE | £595 | 5 Diwrnod |
| Sul 1af Medi | Teithiau ar Gwch a Tren yn DYFNAINT a GWLAD YR HAF | £535 | 5 Diwrnod |
| Llun 2ail Medi | GOLEUADAU BLACKPOOL | £395 | 5 Diwrnod |
| Sul 8fed Medi | Teithiau cwch ar "Lochs" yr ALBAN ac ambell ddistyllfa chwisgi | £630 | 6 Diwrnod |
| Sadwrn 14eg Medi | LLANDUDNO a CHAMLAS LLANGOLLEN | £565 | 5 Diwrnod |
| Mawrth 17eg Medi | KILLARNEY a RING OF KERRY, IWERDDON. | £725 | 6 Diwrnod |
| Gwener 20fed Medi | WEYMOUTH ac ARFORDIR DORSET | £375 | 4Diwrnod |

**Am fanylion llawn, ffoniwch am ein Llyfryn Gwyliau**
**Bysiau Cwm Taf ar gyfer eich holl anghenion - ffoniwch a gadewch y gweddill i ni**
**01994 240908 / www.tafvalleycoaches.co.uk**

## Teithiau Undydd 2024

| | | | |
|---|---|---|---|
| Mawrth | 4ydd Meh | Amgueddfa Werin Cymru Sain Ffagan | £20.00 |
| Mawrth | 18fedMeh | Caerdydd- Taylor Swift (dim yn cynnwys tocynnau) | £25.00 |
| Mawrth | 25ainMeh | McArthur Glen, Penybont ar Ogwr a Porthcawl | £20.00 |
| Sadwrn | 6edGorff | Sioe Awyr Abertawe | £18.00 |
| Mawrth | 23ainMeh | Taith i Dan yr Ogof (Gwyliau Ysgol) | £35.00 |
| Mawrth | 24ainGorff | Sioe Frenhinol Cymru yn Llanelwedd | £22.00 |
| Mawrth | 30ainGorff | Teithio Sir Benfro a tê prynhawn yn Cenarth | £40.00 |
| Sadwrn | 3yddAwst | Taith Gogledd Cymru Clive (Bore cynnar a mannau casglu cyfyngedig) | £50.00 |
| Mawrth | 6edAwst | Tŷ ddewi a Fferm Chwilod Dr Beynon | i'w gadarn |
| Mawrth | 19egAwst | Castell Margam a'r Gerddi | £18.00 |
| Gwener | 23ainAwst | Diwrnod y Merched yn ffoslas | i'w gadarn |
| Mawrth | 27ainAwst | Aberystwyth ac egwyl am fwyd ar ffordd adref (ddim yn y pris) | £24.00 |
| Mawrth | 10fedMedi | Ynys y Barri am y diwrnod | £22.00 |
| Mawrth | 24ainMedi | Taith Ddirgel a Phryd o Fwyd yn gynnwysiedig | £50.00 |
| Mawrth | 1afHyd | Te Hufen a thaith Cwch ar yr Afon Gwy | £50.00 |
| Mawrth | 19egAwst | Castell Margam a'r Gerddi | £18.00 |
| Gwener | 23ainAwst | Diwrnod y Merched yn ffoslas | i'w gadarnhau |
| Mawrth | 27ainAwst | Aberystwyth ac egwyl am fwyd ar ffordd adref (ddim yn y pris) | £24.00 |
| Mawrth | 10fedMedi | Ynys y Barri am y diwrnod | £22.00 |
| Mawrth | 24ainMedi | Taith Ddirgel a Phryd o Fwyd yn gynnwysiedig | £50.00 |
| Mawrth | 1afHyd | Te Hufen a thaith Cwch ar yr Afon Gwy | £50.00 |
| Mawrth | 8fedHyd | Amgueddfa Werin Cymru Sain Ffagan | £20.00 |
| Mawrth | 22ainHyd | Siopa Nadolig yn Cabot Circus, Bryste | £25.00 |
| Mawrth | 29ainHyd | Diwrnod Marchnad yn y Fenni | £24.00 |
| Mercher | 6edTach | McArthur glen, Penybont ar Ogwr | £20.00 |
| Mawrth | 19egTach | Siop Vincent Davies, Hwlffordd | £14.00 |
| Sadwrn | 16egTach | Gŵyl y Gaeaf Abertawe (Winter Wonderland) | £16.00 |
| Llun | 25ainTach | Sioe Aeaf Amaethyddol Cymru, Llanelwedd | £22.00 |
| Iau | 28ainTach | Trago Mills, Merthyr Tydfil | £22.00 |
| Mawrth | 3yddRhag | Siopa Nadolig yn Abertawe | £16.00 |
| Mawrth | 10fedRhag | siopa nadolig yng Nhaerdydd | £20.00 |
| Iau | 12fedRhag | Marchnad Nadolig yn y Gelli Ganddryll | £25.00 |

**Ffôn: 01994 240908 / info@tafvalley coaches.co.uk**

# PENBLWYDD HAPUS




Penblwydd hapus i Tomi Glyn oedd yn flwydd oed ar y 10fed o Fai. Mae Tomi'n frawd i Gruff, yn fab i Marged a Ben, Llangynnwr, ac yn ŵyr bach i Puw a Sian, Kings, Boncath.



Penblwydd hapus i Lloyd Hart (ŵyr i Iori a Ceri Saer, Blaenffynnon) fydd yn 13 oed ar y 21ain o Fai. Hefyd i Mari Saer Hart fydd yn 5 oed ar y 11fed o Fehefin. Cariad oddi wrth y teulu yn lleol, Pen y Bont ar Ogwr a Warrington.



Penblwydd Hapus i Lyra Farnden ar ei phenblwydd 1af ar Fai 15fed. Merch Nia a Robert Farnden, Tegryn ac wyres i Delyth a Michael Roblin, Clunderwen.





Penblwydd hapus i Alys James o Benybont ar Ogwr a oedd yn 8 oed ar Fai 22ain a'i chefnder, Steffan Leeke o Hensol a oedd yn 3 oed ar Fai 24ain. Daw'r cyfarchion oddiwrth Dadcu a Nain (Ryland a Beti-Wyn), Anti Iona ac Wncwl Ceri.



Penblwydd hapus iawn i Betsi Haf o Feisgyn. Fe fydd hi'n 8 oed ar yr unfed ar bymtheg o Fehefin. Cariad mawr wrth, Mami, Dadi, Efa-Grug a Mari Elli, Mamgu a Geraint, Carreglwyd, Llangynin a Hen-Ddadcu, Tymore, Llangynin. Xxx





Penblwydd Hapus i Gwilym Caeron Snelson, Caerfyrddin a fydd yn 11 oed ar Fehefin 5ed. Cariad mawr wrth Dad a Mam; Caleb; Osian; Tadcu a Mamgu; Taid Dinbych a'r teulu oll.

**Penblwydd Hapus!**

CYFRES Wenfro

# Baneri Bendigedig

**CYSTADLEUAETH Cyfle i un darllenydd lwcus ennill llyfr o gyfres Wenfro**

Mae Branwen, y frân wen, wedi bod yn hedfan dros diroedd Maldwyn yn cyfri'r trionglau ar y baneri bendigedig.

**Fedrwch chi ddyfalu faint o drionglau coch, gwyn a gwyrdd welodd y frân fusneslyd?**

Pob lwc ym Maldwyn!




**Anfonwch eich ateb at wenfro.cymru@gmail.com Dyddiad cau: 28/06/24**

**Leia Jenkins, Ael y Bryn, Meidrim yw enillydd Cystadleuaeth Cymylau Gwlanog**

Ateb: 1. Niwl, 2. Haul, 3. Eira, 4. Cesair, 5. Eirlaw, 6. Cwmwl, 7. Gwynt, 8. Enfys, 9. Glaw.

Mae Wenfro yn gynllun addysgol cynhwysfawr ar gyfer y Cyfnod Sylfaen. Cyhoeddir y gyfres gan Gomer/Atebol. **www.wenfro.cymru**

ⓗ y testun a'r lluniau: Llinos Mair © 2024

**Bydd enw enillydd y gystadleuaeth yn cael ei gyhoeddi cyn hir.**

**Faint ohonoch welodd yr Aurora Borealis yn ddiweddar?**

**Dyma ddau lun a dynnwyd yn ardal Efailwen.**

*Lluniau: Ceirios Jenner*





## Llongyfarchiadau



Mae Elfan Dan Griffiths o San Cler wedi cael ei sefydlu fel cynghorwr i dîm Criced Cymru dros 70 ar gyfer Cwpan y Byd sydd yn cael ei gynnal yn y siroedd tu allan i Lundain. Fe fydd y pencampwriaeth yn cael ei gynnal dros bythefnos ym mis Gorffennaf ac Awst - 27ain Gorffennaf i Awst 11eg. Os oes unrhyw berson neu gwmni am gefnogi, mae'r tîm yn edrych am gymorth ariannol i helpu gyda'r costiau o gymeryd rhan - ebostiwch am fanylion edg1956@gmail.com

Mae Elfan wedi bod yn chwarae criced i Gymru am 16 o flynyddoedd, yn gyntaf gyda Cymru dros 50 (52 o gapiau ac un pencampwriaeth); Cymru dros 60 (50 o gapiau, hyd yn hyn) ac ennill dau bencampwriaeth, a fe aeth mas i gymeryd rhan yng Nghwpan Y Byd dros 60 yn Awstralia yn 2022.

*Clwb Pel-droed Llanboidy - parhad o dudalen 39*

- Llyndaf ac Alice Harries a'i merched Mali a Sophie Davies am gynorthwyo gyda casglu'r arian betio.
- Dafydd ac Anna Makepeace am y bwyd, ac i bawb helpodd yn y gegin yn ystod y noson.
- Diolch hefyd i bawb wnaeth ddod a gwobr raffl.
- Diolch i Glwb Cymdeithasol Llanboidy am gwestio'r digwyddiad ac am hysbysebu yn ogystal â phawb oedd yn gweithio tu ôl i'r bar.
- Diolch yn fawr iawn i bawb wnaeth noddi a cyfran-nu tuag at y noson hefyd.



Cystadleuwyr y rasus ceffylau

Diolch yn fawr iawn i'n holl noddwyr - rydym wir yn gwerthfawrogi eich cefnogaeth barhaol i'r Clwb. Am fwy o wybodaeth, dilynwch neu cysylltwch gyda ni ar ein cyfryngau cymdeithasol. *Rhodri Lewis*

G&S Llewellyn a'i Mab



Contractwyr Amaethyddol
Pen-y-Cwm, Llandysilio
Clunderwen. SA66 7TX
Ffon: 01437 563320

Celia Vlismas
OPTEGYDD
Croeso i gleifion GIG!



**Profion golwg GIG ar gael**
Yn gyflym ac yn hawdd i unrhyw un sy'n gymwys i gael gofal llygaid GIG
Castell Newydd Emlyn 01239 711888
Crymych 01239 831555
Arberth 01834 861373
www.celiavlismasopticians.co.uk

Gwasanaeth Trydanol RMD Cyf
Robert W. R. Morgan
ECA CYMERADWYEDIG GAN NICEIC
17 Trevaughan Lodge
Hendygwyn ar Daf
SA34 0QF
Ffôn: 01994 240946 - Symudol 07966 019281
e-bost: robrmd28@gmail.com

# Clwb Pêl-droed Llanboidy

**Tymor 2023-24**
Mae tymor 2023-24 yn parhau i Glwb Pêl-droed Llanboidy, er ond ambell gêm sydd ar ôl bellach.

**Tîm 1af**
Mae'r tymor bellach wedi gorffen i'r tîm cyntaf. Dros y mis diwethaf, mae'r tîm cyntaf wedi chwarae chwech gêm, gan ennill un, dwy gêm gyfartal a cholli tair.

Isod mae canlyniadau y gêmau gan gynnwys sgorwyr goliau'r Clwb:

Ebrill
13eg: Llanboidy 1-5 Llambed (Ifan Jones)
16eg: Llanboidy 3-0 Llandudoch (Frazer Wyatt, Phil Howell a Harry Fuller)
20fed - Llanboidy 1-4 Llandysul (Frazer Wyatt)
27ain - Llanboidy 0-1 Dewi Stars

Mai
4ydd - Crannog 2-2 Llanboidy (Pete Davies a Luke Brisco)
7fed - Bargod 2-2 Llanboidy (Phil Howell a Jac Griffiths)

Diolch yn fawr iawn i bawb sydd wedi cynorthwyo'r tîm cyntaf eleni, yn enwedig Dafydd Makepeace ein hyfforddwr, gyda chymorth Robert Morgan a Bruce Scourfield.

**2il Dîm**
Mae tymor yr ail dîm yn parhau, gydag ambell gêm ar ôl cyn diwedd y tymor. Dros y mis diwethaf maent wedi chwarae pedair gêm gan ennill un, a cholli tair.

Isod mae'r canlyniadau a'r sgorwyr:

Ebrill
16eg: Aberteifi 4 - 3 Llanboidy (Chris Bowen, Lewis Thompson a Will Gardner)
27ain: Maesglas 3-2 Llanboidy (Jason Reynolds a Sam Moore)

Mai
4ydd: Llanboidy 10-2 Bargod (Sam Moore 2, Ashley Herbert, Lewis Thompson, Chris Bowen, Will Gardner, Will Abbott 2, Jason Reynolds)
7fed: Llanboidy 1-11 Llambed (Chris Bowen)

**Adran Iau**
Mae tymor yr adran iau wedi gorffen am y tro, er bydd amryw o gystadlaethau dros yr Haf. Rydym o hyd yn chwilio am fwy o chwaraewyr rhwng 5-16 oed i ymuno â'r timau derbyn, dan 6, dan 8, dan 10, dan 12, dan 14 a dan 16 sydd gyda ni. Am fwy o wybodaeth - ewch ar dudalen facebook yr adran iau "CPD Llanboidy AFC Juniors".

**Noson Rasys Ceffylau**
Ar nos Sadwrn, Ebrill 20fed cynhaliwyd noson rasys ceffylau'r Clwb. Llongyfarchiadau i Frazer Wyatt, chwaraewr y Clwb am ennill y ras derfynol. Diolch yn fawr iawn i bawb wnaeth gynorthwyo gyda'r trefnu, cyn ac yn ystod y noson: *parhad ar dudalen 38*

*Clwb Rygbi Hendygwyn - parhad o dudalen 40*
Ebrill 21ain: Hendy Gwyn 19 - Gogledd Llandaf 69

Colli'n drwm mewn gêm galed yn erbyn y tîm ar frig y Premiership. Gwnaeth y merched chwarae'n dda yn ystod yr hanner awr cyntaf ond nid oeddent gallu cystadlu yn erbyn olwyr dawnus a chyflym Llandaf am weddill y gêm.

Cais yr un i Marged Williams, Macey Bowen a Danielle Lawerence; dau drosiad gan Macey Bowen.



Tîm merched dan 18, yn dilyn ei buddugoliaeth yn erbyn Worcester o 64 pwynt i 24.

**Merched**
Dan 12: Colli i ffwrdd erbyn Aberteifi.
Dan 14: Ennill 45 – 7 yn erbyn Dinbych y Pysgod.
Dan 18 - Ennill 64-24 yn erbyn tîm o Worcester oedd ar daith yn Sir Benfro. *Suzanne Davies*

## Anrhydeddu Suzanne Davies

Llongyfarchiadau mawr i Suzanne Davies ar dderbyn gwobr @Diolch@Award yn Stadiwm y Principality, Caerdydd ar Ebrill 27ain. Nid oedd amcan gan Sue bod hi mynd i gael ei hanrhydeddu a daeth y cyhoeddiad fel sioc mawr iddi. Mae Sue wedi cyflawni gwaith gwych wrth hyrwyddo rygbi merched yn Hendy Gwyn dros flynyddoedd maith ac mae hithe'n llawn haeddu'r anrhydedd a'r wobr yma. Daw'r cyfarchion wrth bawb o Glwb Rygbi Hendy Gwyn a darllenwyr Y Cardi Bach. *(Gol)*



Suzanne Davies yn dangos y tystysgrif wnaeth dderbyn ar achlysur ei hanrhydeddu gan Undeb Rygbi Cymru.




# CHWARAEON



## Clwb Rygbi San Clêr

Ar ôl tymor hir, fe wnaethom groesawu Llanbed i Barc Griffith Jones ar gyfer gêm ola'r tymor, roeddwn eisioes yn bencampwyr ar ôl trechu'r Mwmbwls bythefnos ynghynt.

Roedd hwn yn gyfle i chwarae ein gwrthwynebwyr pennaf o'r tymhorau diweddar – roeddwn eisioes wedi ei curo i ffwrdd yn Llanbed yn gynharach yn y tymor. Roedd Llanbed yn 4ydd yn yr adran a wastod yn mynd i fod yn her anodd ac fe wnaethon nhw roi llawer o bwysau ar y Seintiau yn yr hanner cyntaf gan arwain ar yr egwyl. Doedd y Seintiau fodd bynnag, ddim yn barod i ddifetha'r parti a roeddent yn benderfynol o ennill gêm gynghrair olaf y tymor. Gwnaethant hynny yn y diwedd wrth i Dafydd Waters sgorio dau gais, Sion Evans sgorio un a Dan Griffiths yn cicio dwy gôl gosb a tair trosiad. Sgôr terfynol, San Cler 27 - Llanbed 19.

Cyflwynwyd tlws Pencampwyr Adran 2 y Gorllewin gan Chris Jones, cynrychiolydd Dosbarth G Undeb Rygbi Cymru, i gapten y clwb sef Jac Howells, sydd wedi arwain y tîm gydag aeddfedrwydd y tymor hwn. Mae sicrhau dyrchafiad am yr ail dymor yn olynol yn brawf pendant o ymrwymiad llwyr y chwaraewyr drwy gydol y tymor - pob clod hefyd i'r tîm hyfforddi sef Rhodri Jones, Mike Jones a Dafydd Evans. Mae 20 buddugoliaeth allan o 22 a cael 91 o bwyntiau yn adlewyrchu gwaith da am y tymor.

**Ieuenctid**
Gwnaeth y Seintiau ifanc fwynhau taith ddiwedd tymor lan yng Ngogledd Cymru a chwarae gêm yn erbyn Bethesda, gan ennill 46 - 23 mewn gêm agored a chyffrous. Diolch i'r hyfforddwyr a'r tîm rheoli am ddatblygu'r garfan yn ystod y tymor.

**Timau Iau a Mini**
Cynhaliwyd gŵyl rygbi lwyddiannus iawn ar Ebrill 21ain gyda 58 tîm yn bresennol o bob rhan o Dde Cymru. Roedd timau dan 7, 8, 9, 10, 11 a 12 oed yn cystadlu mewn digwyddiad rhagorol tu hwnt. Roedd y tywydd o'n plaid ac roedd hyn yn ddiwrnod gwych i chwaraewyr a cefnogwyr fel ei gilydd. Diolch i'r pwyllgor iau, gwirfoddolwyr a dyfarnwyr am eich holl waith caled wrth wneud hyn yn lwyddiant ysgubol unwaith eto.

**Timau dan 12, 14 ac 16**
Cymerodd ein timau dan 12, 14 ac 16 ran yn niwrnod rowndiau terfynol Sir Gaerfyrddin ddechrau mis Mai, yng Nghlwb Rygbi Castell Newydd Emlyn.

Perfformiodd bob tîm yn dda iawn ac roedd ennill yr ail wobr yn y bowlen, y plât a'r Cwpan ym mhob grŵp yn lwyddiant mawr i'r clwb. Pob lwc i'r chwaraewyr 16 oed sydd wedi cael tymor gwych a phob lwc wrth i chi symud ymlaen i rygbi ieuenctid y flwyddyn nesaf.
Wrth i'r tymor ddirwyn i ben, hoffwn ddiolch o galon i'r chwaraewyr, hyfforddwyr, gwirfoddolwyr, cefnogwyr, noddwyr a rhieni am eu cefnogaeth barhaus i'r clwb – gwerthfawrogi'r hynny'n fawr iawn. Edrychwn ymlaen i ddathlu llwyddiant y tymor yn ystod ein cinio blynyddol a gynhelir yng Ngwesty'r Llwyn Iorwg, Caerfyrddin ar Fai 26ain. *Gwyndaf Williams*


Sgwad , Hyfforddwyr a Rheolwyr y clwb



*Lluniau: Chris Rees*
Y chwaraewyr yn dathlu

## Clwb Rygbi Hendygwyn

**Dynion**
Yn anffodus, colli 21 – 24 wnaethom yn rownd derfynol y Plat yn erbyn Aberdaugleddau. Fel y gemau blaenorol, gwnaeth y bois adael hi'n rhy hwyr cyn dechrau chwarae. Cais yr un i Owyn Griffiths a Dominic Davies, tair cic gosb ac un trosiad gan Geraint Jones.

**Menywod**
Ebrill 14eg - Porth Tywyn 24 - Hendy Gwyn 24. Gêm gyfartal gyda Macey Bowen yn llwyddo gyda trosiad ym munud diwetha'r gêm. Cais yr un i Hannah Stiles, Marged Williams, Tanwen Cox a Danielle Lawes: dau drosiad gan Macey Bowen.

*parhad ar dudalen 39*